www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 514
Gorffennaf
2023



# Llysiau a Llwybrau Llesol





Bu'r Cynghorwyr Beca Brown a Sasha Williams a Hywel Williams AS yng nghaeau Tyddyn Teg yn ddiweddar gyda disgyblion Ysgol Bethel ac Ysgol Brynrefail i weld ffrwyth llafur y disgyblion, sydd wedi bod yn plannu yno fel rhan o waith addysg GwyrddNi.

Cafwyd cyfle i drafod yr angen mawr am lwybr cerdded diogel o Bethel i Lanrug sydd yn bryder i ddisgyblion y ddwy ysgol, fel llawer o drigolion yr ardal.

Aethant i Ysgol Brynrefail hefyd i weld yr ardd newydd, y cynnyrch a hefyd y cerrig lliwgar sydd yn brosiect tair-ieithog i greu sloganau sy'n ysbrydoli. Mae'r ardd yn lle i dyfu llysiau ond hefyd yn noddfa o brysurdeb y buarth ac yn lle i feithrin cyfeillgarwch.











## Yn y rhifyn hwn:


- Hanes Gasworcs Llanberis – tud 16
- Cofio gŵyr o Ddeiniolen – tud 4 a 5
- Garddio – tud 26
- Nosweithiau Gwobrwyo Pêl-droed – tud 29 a 30




## Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk


# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Croeso i rifyn mis Gorffennaf o'r Eco, gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen!

Mi fydd y rhifyn nesaf yn rifyn ar gyfer dau fis, sef Awst a Medi, felly dyma bwt bach i'ch atgoffa y bydd angen anfon unrhyw wybodaeth am ddigwyddiadau fydd i'w cynnal ddechrau Medi atom mewn da bryd.

Dyddiad cau derbyn erthyglau/newyddion/hysbys ar gyfer Awst a Medi felly ydi **14 Gorffennaf**.

Diolch o galon i'r holl gyfrannwyr selog, a chroesawn unrhyw gyfraniadau newydd yn ogystal. Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£20 – Eirlys Sharpe, Ael y Bryn, Bethel er cof am Brian Sharpe

£30 – Dennis a Mair Davies, 33 Talycae, Tregarth. Er cof am Dilys Wyn Morris, Foelas, Deiniolen a Richard a Gwyneth Evans, Tŷ'n Buarth, Brynrefail



# Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Graddfa Geni**. Y Pab yn rhybuddio mai dim ond y cyfoethog all fforddio cael plant yn yr Eidal. Mae'r lleihad sylweddol yn y raddfa genedigaethau yno yn arwydd o anobaith am y dyfodol meddai.
- **Dad-goedwigo**. Ers ethol Lula da Silva yn Arlywydd Brasil y llynedd, mae ei addewid i roi diwedd ar ddad-goedwigo fforestydd yr Amazon eisoes wedi dwyn ffrwyth gyda dim ond 126 milltir sgwâr wedi ei chlirio y mis diwethaf – lleihad o 68% ers yr un mis y llynedd.
- **Seiclon Mocha.** Myanmar a Bangladesh yn dioddef effeithiau'r storm a thros fil o adeiladau wedi eu difrodi. 400,000 o bobl yn cael eu symud o lwybr y storm ond y Cenhedloedd Unedig yn datgan fod tua 6 miliwn o bobl mewn angen cymorth rhyngwladol.
- **Wy 'di ferwi'n galed.** Dyna'r enw swyddogol a roddwyd i ddeinosor newydd a gafodd ei ddarganfod yn neheudir Patagonia. Roedd ei esgyrn mor fawr ac mor galed, fe rowliodd y cyfan o gwmpas yng nghefn y lori oedd yn ei gario ac achosi damwain – ond doedd yr esgyrn ddim gwaeth. Ei enw gwyddonol yw Chucarosaurus Diripienda.
- **Gweithio**. Mae Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol ym Mhrydain wedi cyhoeddi fod 2 filiwn a hanner o bobl yn rhy wael i weithio: cynnydd o 400,000 ers y pandemig. Credir fod llawer o'r gweithly yn dioddef o effeithiau hir-gofid.
- **Ceir gwerthfawr**. Mae Gallery Aeldering yn yr Iseldiroedd wedi prynu dros 230 o geir gan gasglwr meudwyaidd oedd yn eu storio mewn dwy warws anferth, ond yn tanio injan pob un ohonynt bob dydd. Mae disgwyl i'r ceir werthu am brisiau'n amrywio o £21,000 i £60,000 yr un. Ond mae un car arbennig yn y casgliad – Lancia Aurella B24 Spider America – un o ddim ond 57 yn unig a gynhyrchwyd. Amcangyfrifir pris o tua £2.1 miliwn amdano.
- **Treth Ymwelwyr.** Mae Cyngor Tref St Ives yng Nghernyw yn ystyried gosod treth ar ymwelwyr oherwydd y pwysau ariannol cynyddol ar y cyngor i baratoi cyfleusterau gogyfer a'r 760,000 o ymwelwyr sy'n treulio eu gwyliau yno yn flynyddol.
- **£8,000.** Dyna'r cyfanswm mae'r mwyafrif o bobl yn fodlon mynd i ddyled cyn ystyried chwilio am gymorth.
- **Hedfan.** Yn eu hymdrech i dorri ar allyriadau carbon mae Ffrainc wedi gwahardd teithiau awyren os yw'n bosib eu gwneud mewn dwy awr a hanner ar drên.
- **Gwymon.** Mae ymgynghorydd bwyd yn y Cenhedloedd Unedig yn darogan mai gwymon fydd y bwyd ar gyfer y 10 biliwn o bobl fydd yn byw ar ein daear yn y dyfodol. Yn y Dwyrain Pell mae 36 miliwn tunnell o wymon yn cael ei fwyta'n flynyddol eisoes, ond prin iawn yw'r galw amdano yng ngweddill y byd. Bara lawr amdani felly.
- **Ogof.** Ers Brecsit mae nifer sylweddol o bobl o Brydain wedi prynu ogofau yn Sbaen i fyw ynddynt. Maent yn gwerthu am tua £25,000, a'u tymheredd yn aros rhwng 16°C a 22°C drwy'r flwyddyn – claear yn yr haf a chynnes yn y gaeaf. Ond rhaid dod yn ddinesydd Sbaen i gael byw ynddynt am fwy na 90 diwrnod y flwyddyn.
- **Dŵr oer.** Mae poblogaethau pysgod yn symud i ddyfroedd oerach oherwydd cynhesu'r hinsawdd. Dyna ganlyniad gwyddonwyr o Brifysgol Glasgow sydd wedi astudio ystadegau am 115 o fathau gwahanol o bysgod a darganfod eu bod yn symud i begynnau'r de neu'r gogledd ac hefyd yn plymio i ddyfroedd dyfnach i osgoi dŵr cynnes.
- **Dathlu.** Mae darn 50 ceiniog newydd wedi ei fathu i ddathlu penblwydd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn 75 mlwydd oed.

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Awst a Medi | 14 Gorffennaf | 28 Gorffennaf |
| Hydref | 8 Medi | 22 Medi |
| Tachwedd | 13 Hydref | 27 Hydref |



# Cymro yn Seland Newydd a Chymru

Ers i fy ewythr symud i Seland Newydd yn y saithdegau, mae'r syniad o ymfudo yno wastad 'di bod yng nghefn fy meddwl. Yn ystod 1999, penderfynodd Amanda a finnau i wneud cais am Fisa Preswylio (Residency Visa). Cymerodd dros flwyddyn ond erbyn hynny roedden ni'n edrych 'mlaen at ein bywyd newydd yn Aotearoa.

Roedd y tywydd yn debyg i Brydain ond mewn rhai lleoedd roedd y tymheredd yn llawer poethach ac mewn llefydd eraill yn llawer oerach! Yn ystod y gaeaf, mae'r tymheredd yn medru syrthio i tua rhewbwynt ond yn codi i tua ugain gradd yn y pnawn - bydd angen newid dillad sawl gwaith yn ystod y dydd! O leiaf yn y wlad hon, os ydi hi am fod yn oer yn y bore, mi fydd hi'n oer drwy'r dydd!

Mae'r boblogaeth frodorol, y Maori, wedi dioddef yn enfawr dros y blynyddoedd ers i'r Deyrnas Unedig oresgyn y wlad yng nghanol y 19eg ganrif, yn union fel y brodorion yn Awstralia. Ers hynny, mae'r amodau wedi gwella ond mae'r tir, iaith a hawliau sifil dal yn faterion dadleuol fel y maen nhw efo grwpiau lleiafrifol a threfedigaethau eraill o gwmpas y byd heddiw.

Yn Christchurch roedden ni'n byw. Rhai penwythnosau bydden ni'n teithio ar feic modur i Banks Peninsula, ein llosgfynydd segur lleol, i fwynhau'r ffyrdd heriol, golygfeydd godidog, a bwyd y diwylliant Ffrengig yn Akaroa. Amserau eraill, bydden ni'n teithio ar draws y Canterbury Plains hir, gwastad a diflas i gyrraedd Alpau'r De a throsodd i'r ochor arall lle mae'r tonnau yn taro yn erbyn yr arfordir gorllewinol. O fan'na, medrwch chi edmygu rhewlifau Mynydd Cook sydd yn sefyll yn fawreddog pedair mil medr uwchben tra mae'r pryfaid tywod yn brathu eich croen ac yn tynnu gwaed!



Rhisiart ap Gwilym



Rŵan ein bod ni wedi setlo i lawr o'r diwedd, rydyn ni'n gallu dweud yn saff ein bod wedi darganfod ein lle perffaith i fyw. Yn wir, dydyn ni erioed wedi bod yn hapusach - Parciau Cenedlaethol, golygfeydd anhygoel, arfordir garw a thraethau braf gyda dŵr clir o amgylch. Mi ellwch chi syrffio, neidio o awyren, rafftio dŵr gwyn, nofio gyda'r dolffiniaid neu ddringo mynyddoedd a llawer mwy. Mae'r bobl yn andros o gyfeillgar ac yn falch o'u hanes, eu hiaith a'u gwlad.

Tybed a fyddwch chi'n synnu os rydyn ni'n deud bod y paragraff diwetha' yn disgrifio Cymru? Ie, dyna fo - ar ôl tair blynedd penderfynon ni i symud nôl i Brydain ac yn ffodus iawn darganfod gwaith nôl yng Nghymru, y wlad lle cefais fy ngeni a lle mae fy nghalon i'n dal i fod. Rwy'n enedigol o Ddinbych, ond bellach wedi ymgartrefu yn mro'r Eco.

Weithiau, mae'n cymryd taith dros ddeuddeg mil o filltiroedd i un o'r gwledydd gorau yn y byd cyn i chi sylweddoli pa mor ffodus rydych chi i fyw mewn gwlad fel Cymru.



Seland Newydd yntau Cymru?'

## Gwobr Gŵyl Cyfryngau Celtaidd

Cipiodd S4C dair gwobr yng Ngŵyl Cyfryngau Celtaidd 2023 yn An Clochán Liath (Dunglow, Iwerddon) yn ddiweddar, ac roedd merch ifanc o Lanrug yn serennu yn un o'r cynhyrchiadau a ddaeth i'r brig.

Mae Leisa Gwenllian yn chwarae rhan Lwsi yn Itopia, y gyfres 'sci-fi' i bobl ifanc sydd dal ar gael i'w gwylio ar blatfformau Clic ac iPlayer.

Mae gyfres wyddonias yn ddilyniant o'r cyfresi Prosiect Z a oedd yn cael eu ffilmio mewn ysgolion uwchradd, ble roedd disgyblion yn gorfod datrys problemau er mwyn dianc rhag 'zombies'. Cafodd un bennod ei ffilmio yn Ysgol Brynrefail yn 2018 ac mae'r bennod honno dal ar gael i'w gwylio.




Mae Itopia yn parhau ym myd 'zombies' ond cyfres ddrama ydi hi gyda chast sydd yn cynnwys Llion Williams, Lara Catrin, Gwïon Morris Jones a Matthew Gravelle.

Mae Leisa Gwenllian yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Llanrug ac Ysgol Brynrefail ac mae hi bellach yn astudio yn ngholeg Oxford School of Drama.

Mae'r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yn hyrwyddo ieithoedd a diwylliannau'r gwledydd Celtaidd ym myd y cyfryngau, ac fe ennillodd Itopia (Boom Cymru) y wobr am y Rhaglen Blant orau. Llongyfarchiadau mawr!







## Diwrnod gwych eto i Rideout 2023 er cof am Howell

Cafwyd ddiwrnod arbennig i gasglu pres i Gylch Meithrin Deiniolen a Phwyllgor Pentra Deiniolen. Diolch i'r beicwyr i gyd ac i bawb o'r gymuned am eich cefnogaeth.

Diolch i Eifion Roberts o Beicwyr Llŷn Bikers, a diolch mawr i'r noddwyr i gyd:

Y prif noddwr, Andy Carson o Glwb Beicwyr Eryri, Grŵp Gogledd Cymru Ltd

Diolch hefyd i - Teiars Gwynedd Tyres; Campfa Coco; John Roberts Ffestiniog; Car G&H a Hysbysebion Ltd; Symudwyr Melin; Martin Glyn Williams; Pasty Taxi Bethesda; Nia Bont; Cegin Caribi; Pizza wedi'i Tanio â Blawd a Fflam; Dafydd Edwards ice cream.

Diolch i'r *marshals* - Deborah Lloyd Jones, Ryan Owen, Daniel Wyn Jones, A Fletcher, Chris Jones, Steff RW, Noel Owen, Llio Jen Ann Jones, Elfed, Sophie Williams, Dawn Parry.

Cerddoriaeth gan Arfon Wyn, a'r Gogs, Rosie Anne Winson a Matt.

Diolch hefyd i Andrew Whitehead a Jamie Roberts am helpu i glirio iard yr ysgol, a diolch i Ysgol Gwaun Gynfi ac Owain Llŷr.

**Newyddion Cynghorydd Deiniolen**

Rwyf wedi gyrru llythyr at Lywodraeth Cymru i erfyn arnynt i beidio torri mwy ar wasanaeth bysiau gan fod llawer o bobl yn dibynnu arnynt i fynd i'r gwaith ac yn y blaen.

Dwi wedi gweld fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi swm ychwanegol at y gwasanaeth, ond a fydd hyn yn ddigon yn y pendraw? Os nad ydym yn defnyddio y bysiau, mi all hyn fod yn rheswm i Lywodraeth Cymru dorri mwy ar y gwasanaeth.

Wedi bod rownd tua 5 lleoliad efo tîm tacluso y Cyngor.



Un o'r cwynion a gefais oedd fod rhan uchaf y llwybr uwchben Porth Gogledd wedi guddio o dan eithin.

Ar ôl cael cwynion fod sbwriel ac yn y blaen yn cael ei adael o gwmpas lleoliad Marchlyn rwyf wedi cael gair efo swyddog yn y Cyngor i osod arwyddion ar y safle.

Erbyn i'r Eco eich cyrraedd, bydd cae chwarae y Bwthyn a mynwent Macpelah wedi cael toriad cyn Sul y Tadau a diwrnod y Carnifal.

Diolch i Gyngor Gwynedd am osod ffens newydd ar lwybr Gorlan.

**Profedigaeth**

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Delyth a Glyn, Erw Fair, Deiniolen, yn eu profedigaeth o golli tad yn ddiweddar. Cydymdeimlwn a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.

**Wythnos Cymorth Cristnogol**

Ni fu'n bosibl gwneud y casgliad arferol o ddrws i ddrws yn Neiniolen ar gyfer Apêl Wythnos Cymorth Cristnogol yn ystod mis Mai. Ond gwnaed apêl trwy *Gronyn*, taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las, a derbyniwyd o Ddeiniolen a Llanberis gyfanswm o £925.25 tuag at yr Apêl. Ar ran Cymorth Cristmogol, diolch yn fawr am yr holl gyfraniadau.

**Cangen Plaid Cymru Deiniolen**

Mi welwch lun o aelodau'r gangen allan yn casglu sbwriel o gwmpas y pentref. Gobeithio cynnal mwy o sesiynau dros yr haf, croeso i unrhyw un ymuno.



www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa

# COFIO – Huw Robert Jones

Mae Mehefin yn fis arbennig i bentrefwyr Deiniolen. Dyma'r mis y byddwn yn cofio'r diweddar Huw Robert Jones. Fe gafodd ei eni yn rhif 8, Tai Gweledfa ar y 3ydd o Fehefin, 1894 a bu farw ar yr 17eg o Fehefin, 1930, yn ddyn cymharol ifanc yn 36 oed. Mae wedi'i gladdu ym mynwent yr Eglwys.

Mae'n briodol iawn i ni gofio amdano am ddau reswm:

- Yn gyntaf gan mai ef a arweiniodd yr ymgyrch i sicrhau mai Deiniolen oedd enw swyddogol y pentref;
- Yn ail oherwydd ei gyfraniad allweddol i Blaid Cymru.

Roedd Huw Robert Jones yn un o'r criw o 6 a fynychodd y cyfarfod hanesyddol i sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru (Plaid Cymru i ni heddiw) yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwllheli yn 1925.

I gofio amdano mae Annette Bryn Parri a Tony Elliott wedi cyfansoddi cân arbennig. Hefyd mae Mrs Catrin Gwilym a Staff Ysgol Gwaun Gynfi yn mynd i gynnal gwahanol weithgareddau yn yr ysgol er mwyn i'r disgyblion gael dysgu mwy am ei fywyd a'i gyfraniad pwysig i Gymru. Mae'n fwriad gan Mrs Gwilym, Staff yr Ysgol ac Annette i fynd â'r plant i'r fynwent i weld bedd Huw Robert Jones a chanu'r gân ar lan y bedd.

Dyma'r gân:

**I gofio HR Jones**
Yng nghysgod ponciau'r chwarel
Fe welodd olau dydd,
Un eiddil oedd o'r cychwyn
Ond cadarn oedd ei ffydd!
Wrth dyfu dysgodd garu
ei fro, ei wlad a'i iaith
A'u cario yn ei galon
Wrth fentro ar ei daith.

Ei freuddwyd oedd gweld Cymru
Yn rhydd o ddeddfau'r Sais,
Gan ddal ei phen yn uchel
Yn wyneb brad a thrais:
Yng nghwmni dewrion ffyddlon
Fe frwydrodd nos a dydd,
Gan weithio yn ddiflino
I fynnu Cymru Rydd.

A heddiw yn Neiniolen
Bydd eto yn ein co',
Mae'r dyn o Dai Gweledfa
Â'i ysbryd yn y fro.
A chofiwn ninnau'i alwad
A'i eiriau ar ein clyw,
"Rhaid deffro'r werin daeog,
Rhaid cadw'r iaith yn fyw."

***Tony Elliott***


**CYFLE CYFFROUS I WEINIODOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD**

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun EFE,
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill?
Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?
Mae Cynllun EFE yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl trwy gydweithio â chapeli, eglwysi ac ysgolion yn y pentrefi rhwng Y Wyddfa a Chaernarfon.
Am fanylion llawnach am y swydd a ffurflen gais, cysylltwch â John Roberts ar johntyhen@aol.com - neu ffoniwch (01286) 650450
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf 2023


# Cynllun Efe

## (Efengyl i Fro'r Eco)

Mae Cynllun Efe yn gobeithio penodi Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd newydd dros yr haf.

Elusen Gristnogol anenwadol leol ydi Cynllun Efe. Fe'i sefydlwyd ddeunaw mlynedd yn ôl yn 2005 i gefnogi gwaith capeli ac eglwysi ym mro *Eco'r Wyddfa* i gyflwyno'r newydd da am Iesu Grist i bobl ifanc a phlant. Cynhaliwyd amrywiol weithgareddau mewn capel ac eglwys, yn cynnwys cyfarfodydd plant, clybiau i'r ieuenctid, oedfaon teulu, sesiynau crefft a stori a chân, a nosweithiau gemau a chystadlaethau pêl-droed a phêl rwyd. Nod y cyfan fu rhannu'r newyddion da am Iesu Grist. Dros y blynyddoedd hefyd, dan arweiniad y tri gweithiwr a fu'n gwasanaethu'r elusen hyd yma, datblygwyd perthynas ag ysgolion cynradd yr ardal a bu'r gweithwyr yn ymweld yn gyson â'r ysgolion i gynnal gwasanaethau.

Mae Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu'n ariannol at yr elusen dros y blynyddoedd. Rydym yn dibynnu fwyfwy ar gyfraniadau oddi wrth unigolion ac eglwysi a chronfeydd lleol sy'n cefnogi'r gwaith gan fod llai o arian yn dod erbyn hyn oddi wrth yr enwadau a fu'n ein cefnogi yn y blynyddoedd cynnar. Gwerthfawrogwn bob cymorth ariannol sy'n ein galluogi i fentro unwaith eto i geisio penodi Gweithiwr newydd.

Swydd ran amser (3 diwrnod yr wythnos) sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd, a gobeithiwn benodi Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd ar gyfer mis Medi, neu mor fuan â phosibl wedi hynny. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Gorffennaf 31, a gwelir y manylion yn yr hysbyseb ar y dudalen hon.

Mae Cynllun Efe hefyd yn bwriadu penodi dau ymddiriedolwr newydd yn fuan, ac eisoes wedi estyn gwahoddiad i ddau berson cymwys. Caiff yr enwau eu cyhoeddi wedi i ni gael cadarnhad eu bod yn derbyn y gwahoddiad.



**Diolch**
Dymuna Robat a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Muriel, gwraig, mam, mam-yng-ngyfraith, nain a hen-nain arbennig. Diolch o galon hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Muriel. Fe ddosbarthir y cyfraniadau ymysg sefydliadau lleol.

Yr un mor ddiffuant yw diolchiadau Eirlys, Peter, Richard a'r teulu estynedig am gefnogaeth llawer mewn cydymdeimlad o golli Brian, Ael-y-Bryn. Cafwyd cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau di-rif. Diolch am wir ffrindiau a chymdogion. Yr un modd diolch i staff a meddygon Hafan Iechyd, Caernarfon am eu gwasanaeth am eu gofal parod dros y blynyddoedd. Diolch i'r Canon Idris Thomas a'r Parch. R.E.Hughes am eu gwasanaeth ddydd yr angladd ac i Mrs. Helen Wilcox wrth yr offeryn. Cafwyd teyrngedau clodwiw gan John Davies a'i fab Peter. Diolch am y cyfranwyr hael a gododd £1,055 er cof am Brian. Trosglwyddwyd yr arian at achos Tŷ Gobaith, Conwy. Yn olaf diolch I Meinir o gwmni Dylan Grifffith, Trefnwyr Angladdau am eu gwasanaeth trylwyr.

**Apêl Arall**
Mor aml rydym yn rhyfeddu am yr angen i dynnu sylw at wendidau cyd-fyw cymunedol. Ers amser maith fe dynnwyd sylw at ddifaterwch ambell unigolyn sy'n mynnu anwybyddu unrhyw reolaeth ar wasgaru sbwriel. Yr un modd yn dangos diffyg rheolaeth o glirio baw cŵn y mae eu hanifeiliaid yn wasgaru mor agored led-led yr ardal. Yn awr gwneir apêl ym Methel tuag at yrrwyr ceir a beiciau modur. Er y sefyllfa beryglus o gorneli 'dall' parthed gwaelod Stryd Ganol a throad Tre Gof, ceir cwynion am or-yrru yn yr ardaloedd yma. O gofio y culhau naturiol ar y ffordd yma gan foduron wedi parcio – yn gyfreithlon yn aml – anodd credu sut mae ambell yrrwr yn gallu anwybyddu yr angen i leihau cyflymdra. Rhaid diolch i'r rhai yn yr ardal yma sy'n rhoi o'u hamser i gasglu'r sbwriel a deflir gan y di-ots. Diolch arbennig i bwy bynnag sy'n cyflawni'r gymwynas yma ar y ffordd o gornel Cysegr draw am Lanrug.

**Dymuniadau Gorau**
Braf cyhoeddi bod Eifion Williams, Cefn Gwyn, wedi dychwelyd adref wedi llawdriniaeth yn yr ysbyty.

**Caffi Cymunedol Bethel**
Hoffai'r pwyllgor rheoli gweithgar ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth, ac mae llwyddiant diweddar yn ymddangos i gyfiawnhau eu penderfyniad dewr. Mae'r oriau agor 'newydd' yn hysbys bellach. Braf sylwi fod cymdeithas o du allan i'r ardal – Cymdeithas Pêl-rwyd Arfon/Môn wedi cynnal eu Noson Wobrwyo yno. Felly hefyd y cwis. Edrychwn ymlaen at fwy o weithgareddau cymdeithasol yn y dyfodol. Braf nodi fod rhifynau Eco'r Wyddfa yn gwerthu'n dda yno.

Yn wir fe gynhelir cwis arall dan law Meilyr Emrys yn y caffi ar nos Wener, 30ain Mehefin am 7.00PM. Y thema yw C'mon Midffild. Dangosir dau rifyn ac yna holi cwestiynau arnynt. Pris y noson yw £10 sy'n cynnwys unai cyri cyw iâr a reis neu phecyn tê bach prynhawn. Gan fod y nifer byrddau yn gyfyngedig y cyntaf i'r felin i archebu y tocynnau fydd yn llwyddiannus. Gellir archebu tocynnau yn y caffi neu drwy ffonio 07842 261729.



**Clwb Cerdded Bethel**
Diolch i Emrys Read, arweinydd y daith ddiweddaraf am yr adroddiad a'r llun. 'Man cychwyn ein taith ar fore cymylog oedd y gilfan ar yr hen ffordd A55 rhwng Talybont ac Abergwyngregyn. Dechreuodd yr 20 ohonom gerdded i lawr tuag at Gwarchodfa Natur Aberogwen ar hyd lôn sydd ar hyn o bryd yn dal i ffurfio rhan o Lwybr yr Arfordir. Yna ymlaen drwy'r *Spinnies* i aber yr Ogwen ei hun, yn benodol at y bont haearn sy'n croesi'r aber. Cafodd y bont ei chastio ym Merthyr bron i 200 mlynedd yn ôl. Nid yw'n bosibl ei chroesi gan gerddwyr ar hyn o bryd gan ei bod o fewn tiriogaeth Stad y Penrhyn. Y gobaith yw, fodd bynnag, y bydd Llwybr yr Arfordir yn cael ei ddargyfeirio drosti a bod y gwaith yma i'w gwbwlhau yn yr wythnosau nesaf. O'i gyflawni, bydd yn bosibl cerdded y ddwy filltir o Aberogwen i Borth Penrhyn ym Mangor drwy dir y Penrhyn yn hytrach na'r daith bresenol o bum milltir o'i chwmpas.

Yn 1845, roedd ardal Aberogwen yn safle i ddigwyddiad â arweiniodd at achos llys pwysig. Dygwyd cyhuddiad gan gipeiriad y Penrhyn yn erbyn gweithiwr lleol yn ceisio ei wahardd rhag pysgota yn y môr ger aber yr afon. Cynhaliwyd yr achos yn y Llys ym Miwmares. Er i'r Arglwydd Penrhyn gael ei gynyrchioli gan Gyfreithiwr Cyffredinol y Llywodraeth, y pysgotwr lleol enillodd yr achos, gan sicrhau fod hawl pysgota yno yn parhau i'r cenedlaethau i ddod.

Erbyn gadael Aberogwen, roedd yr haul yn tywynnu'n braf. Ymlaen felly ar hyd Llwybr yr Arfordir i gyfeiriad Abergwyngregyn. Yno cawsom baned tu allan i gaffi Alma. Yna yn ôl ar y bws Llandudno-Bangor at y gilfan ble gadawyd y moduron. Un pwynt i'w nodi. Ar gyfartaledd, mae 6 bws yn mynd trwy Abergwyngregyn bob awr, tair i gyfeiriad Llandudno a thair am Fangor. Braf fuasai cael gwasanaeth cyffelyb i'n pentrefi /ardal ni.'

**Oedfaon Gorffennaf**
Cysegr 10.00AM: 2/7 Gweinidog; 9/7 Eurfryn Davies; 16/7 Parch. Glenys Jones; 23/7 Gweinidog; 30/7 Parch. Gwenda Richards.

Saron 1.00PM: 2/7 Philip Barnett; 9,16,23/7 i'w trefnu; 30/7 Dr. Ian Morris.

Bethel 10.00AM: 2/7 Parch. Cledwyn Williams; 9/7 Parch. Emlyn Rowlands; 23/7 Parch. R.O. Jones.

**Eglwys y Plwyf Llanddeiniolen**
**Colled**
Trist iawn oedd colli dau arall o'n plwyfolion annwyl:
Mr Brian Sharpe a Mrs RH Jones (Muriel).
Roedd y ddau wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth ac wedi gweithio'n galed i gynnal yr Eglwys.
Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Eirlys a'r teulu a Robert a'r teulu

**Trysorydd**
Ein trysorydd newydd yw:
Mrs Barbara Farrow, Bwthyn Fferm Greuor, Penrhos, Bethel, Gwynedd LL55 1UR


**Eisteddfod yr Urdd**
Unwaith eto eleni cawsom ein rhyfeddu gan safon y cystadlaethau llwyfan draw yn Llanymddyfri. Yn anffodus, ni ddaeth gwobr yn ôl i Fethel y tro hwn ond cawsom ymfalchio ym mherfformiadau y disgyblion fu yno. Cafodd Efa Wyn Williams (unawd cornet) a pharti cerdd dant yr ysgol feirniadaethau calonogol iawn. Da iawn chi a diolch i'r sawl fu'n hyfforddi. Roedd rhai o ddisgyblion y pentref ym mand Ysgol Brynrefail â fu ar y llwyfan. Ym marn

llawer roedd y gystadlaeth band ymysg uchafbwyntiau yr adran gerddorol. Cafwyd chwip o gystadleuaeth rhwng Ysgolion Syr Huw, Tryfan a Brynrefail. Mae hyn yn dystiolaeth i'r cyfleuon mae ein hieuenctid yn ei dderbyn ym mandiau safonol Arfon a Môn.

**Profiad**

Dechrau'r mis bu Mary a minnau gydag eraill ar daith fws i Ynysoedd Gorllewinol yr Alban – yr Outer Hebrides. Mewn tywydd godidog bydd sawl golygfa yn aros yn y cof. Roeddem yn ymwybodol ein bod ar ynysoedd ble roedd Gaeleg yr Alban yn iaith gyntaf i 90% o'r ynyswyr. Cafwyd wythnos o'r ddwy gyfnither ieithyddol yn cyd-fyw. Rhaid rhannu un profiad â chwi, sef ymweliad â Maes Awyr Ynys Barra. Enw'r maes awyr oedd Tormor - y traeth mawr. Ie, roedd y tair awyren y diwrnod nôl a mlaen o Glasgow yn glanio ar y traeth. Lle i 10 teithiwr, ond cadwyd dwy sedd yn wâg rhag ofn bod eisiau trosglwyddo claf o'r ynys i'r ysbyty yn Glasgow. Llwytho bagiau'r ymwelwyr ar drelar Ifor Williams – hynod o boblogaidd ar yr ynys!




Y gwaith papur gweinyddol yn cael ei glirio gan un swyddog wrth un bwrdd bach. Dim Swyddogion y Tollau. Yna, codi eich bagiau yn y 'cwt cadw' rhyfeddol – dim mwy na chysgodfan bws (gweler y llun). Symlrwydd ac effeithiolrwydd yn un. Oni allwn ni ddyfeisio rhaglen fewnol Gymreig trwy ddefnydd effeithiol o feysydd awyr Caernarfon, Y Fali, Llanbedr etc. Heb son am safon ffyrdd, ble rydym flynyddoedd tu ôl i'r Alban.

**Ar Ynys Barra**

Rhanasom â'r Ynysoedd – wewyr hil
drwy iaith lleiafrifoedd.
Er llwyfan côr o gannoedd
o'n dwy iaith, her-unawd oedd.

## Clwb Bro Bethel

Cynhaliwyd y trip pen tymor ar ddydd Mawrth, 6ed Mehefin. Roedd yn wibdaith alluogodd i'r 32 aelod a ffrindiau eistedd yn ôl ac ymlacio. Cludiwyd ni ar un o fysus Derfel i orsaf trên Porthmadog. Yna taith trên sydd â rhai o'r golygfeydd gorau yn y wlad. Wrth groesi pont Briwet, roeddem yn cael cipolwg ar Bortmeirion dros aber Dwyryd. Cyrraedd Harlech, a phasio o dan furiau'r castell. Yna dilyn yr arfordir yr holl ffordd i ben ein taith yn Abermaw.

Treuliwyd rhai oriau yma a chafodd yr aelodau gyfle i fwynhau'r golygfeydd o'r harbwr, y promenâd ac ymweld â rhai o'r siopau. Bu un aelod egniol i fyny ar y bryniau i gael golygfa o'r môr a'r mynydd.

Yna'n ôl ar y trên a chael ein cludo i dafarn yr Afr yng Nglan Dwyfach lle mwynhawyd pryd o fwyd blasus.

Ar ran aelodau'r clwb diolchodd Llinos Williams i Mary Wyn Jones am wneud yr holl drefniadau. Bydd gweithgareddau'r clwb yn ail ddechrau ar bnawn Mawrth, 5ed Medi yn Festri'r Cysegr am 1.30PM. O gofio safon ein siaradwyr gwadd, y Cinio Nadolig a'r daith pen tymor roedd yr aelodau yn unfrydol y dylid codi y tal aelodaeth i £10 yr aelod am y tymor nesaf. Edrychwn ymlaen.





**Tafarn Y Glyntwrog Llanrug**

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser



671191

WAVELLS
ESTD 1973
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

**Hefin Jones**
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 | hefsj@aol.com

## CAEATHRO

**Capel**
Ar yr 2il o Orffennaf, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, i gychwyn am 2.00pm – gweinyddir y Cymun yn yr Oedfa hon. Ar yr 16eg o Orffennaf, bydd Gwasnaeth am 2.00pm dan arweiniad y Parchedig Huw Davies.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i un o gyn-drigolion y pentref, Caio Iwan, a'i wraig Lois ar enedigaeth eu mab Ffredi Twm Iwan yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Mr Cadwaladr Evans (Wally) gynt o Gaeathro ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar, ac hefyd ar dreulio 60 mlynedd fel plastrwr ardderchog, ac yn dal ati! Tipyn o gamp!

**Diolch**
Dymuna Derwyn a Rhiannon Roberts (Y Gilfach) ddiolch am bob cefnogaeth a charedigrwydd tuag atynt yn dilyn llawdriniaeth Rhiannon yn ddiweddar, a chyn i Derwyn symud i Gartref Nyrsio Glanrhos, Brynsiencyn, er fod ei galon yn aros yng Nghaeathro.

**A4085**
Yr ydym i gyd fel trigolion y pentref a'r cyffiniau wedi ein brawychu yn dilyn y ddamwain angheuol ddiweddar ar y briffordd rhwng Caeathro ac ardal Peblig, a arweiniodd at farwolaeth cyn-amserol a hynod o drist Joshua Lloyd Roberts. Cefnogwn apêl Mam Josh yn ei galw am newid er mwyn gwella diogelwch y briffordd ac i sefydlu llwybr diogel i drigolion ac ymwelwyr yr ardal. Annogir chi i gysylltu gyda'ch cynrychiolwyr etholedig lleol a sirol i leisio eich barn a'ch pryder, yn y gobaith y bydd yn dylanwadu ar weithrediad a newid heb oedi. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda holl deulu, ffrindiau a chyfeillion Josh yn dilyn eu profedigaeth.

# Un funud fach ...

## MR JOHNSON A MI

Roedd yna ddeuddeg yn y ras. Chweched digon parchus oedd Lord Buckethead a seithfed oedd Count Binface. Petai pobl dda Uxbridge a De Ruislip ond wedi ethol un ohonyn nhw, neu hyd oed wedi mentro anfon William Tobin – a ddaeth yn olaf yn y ras gydag ond pum pleidlais – i San Steffan, gallasai pethau fod mor wahanol. Ond yn lle hynny, Prif Weinidog y dydd a ail etholwyd yn 2019, ac mi wyddom be ddeilliodd o'r penderfyniad hwnnw. Mae gan y 25,351 a bleidleisiodd dros Mr Johnson lawer i ateb drosto. Ac felly hefyd y dyn ei hun.

Erbyn hyn, mae llawer o'r pleidleiswyr hynny'n cydnabod eu cam gwag ac yn difaru o bosib na fydden nhw wedi cefnogi un arall o'r deuddeg. Ond ni fyn Mr Johnson gydnabod na cham gwag na bai. Do, cafwyd ganddo cyn hyn ryw lun o ymddiheuriad am rywbeth a allasai fod – ym marn rhai – yn gamgymeriadau. Ond ni awgrymodd erioed ei fod wir yn credu iddo wneud dim o'i le. Ac wrth gyhoeddi ei ymddiswyddiad o'r Senedd yr oedd yn gwbl gyson ag o'i hun. Gan wybod y byddai adroddiad y Pwyllgor Seneddol yn golygu y byddai'n cael ei ddwyn i gyfrif, camodd o'r neilltu gan feio'r Pwyllgor a'i Gadeirydd a'r drefn 'lwgr' a phawb a phopeth am ei 'erlid o'i swydd'.

Amharod iawn yw Mr Johnson i dderbyn cyfrifoldeb am ei eiriau a'i weithredoedd. Haws o lawer ganddo yw beio eraill am y camgymeriadau a wnaeth o'i hun. Mae'r duedd honno cyn hyned â'r ddynoliaeth o gofio'r modd y taflodd Adda'r bai ar Efa yng Ngardd Eden: 'Y wraig a roddaist i fod gyda mi a roes i mi o ffrwyth y pren' (Genesis 3:12). O'r cychwyn cyntaf tuedd dyn fu cuddio pechod, gwadu cyfrifoldeb a gwrthod â chydnabod bai. Felly Adda; felly Boris Johnson; a gwaetha'r modd, felly minnau hefyd. Wrth natur, mae Mr Johnson a minnau'n debycach i'n gilydd nag y carwn i gydnabod. Cuddio a gwadu yw fy nhuedd a'm dymuniad innau; ac oni bai am ras Duw, dyna a wnawn i bob gafael. Dim ond gras sy'n fy ngalluogi i gydnabod fy mhechod yn erbyn Duw. Oni bai am ras, parhau i feio pobl eraill ac amgylchiadau am bob gwendid a methiant a wnawn innau.

Tybed a fyddai Mr Johnson dal yn Brif Weinidog pe byddai wedi bod yn onest o'r cychwyn ac wedi cydnabod iddo fo ac eraill, yn gwbl anfwriadol a than bwysau mawr yn ystod argyfwng Covid, dorri rhai rheolau a osodwyd ar bawb ohonom? Byddai wedi bod yn embaras mawr iddo fo a'i Lywodraeth, ond tybed a fyddai pobl wedi edmygu ei onestrwydd ac wedi maddau'r cyfan iddo? Yn lle hynny, mynnodd drosodd a throsodd na thorrwyd yr un rheol, a daliodd at hynny er pob tystiolaeth i'r gwrthwyneb.

Gras sy'n ein galluogi i gydnabod bai ac i fod yn edifeiriol, a gras hefyd sy'n ein sicrhau bod gan Dduw faddeuant am bob pechod a throsedd yn ei erbyn. Ond heb edifeirwch nid oes faddeuant, fel y dywed Iesu Grist ei hun: 'Os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll' (Luc 13:3). A bydd y darfod hwnnw fil gwaith gwaeth na'r hyn sy'n wynebu Mr Johnson heddiw.

**JOHN PRITCHARD**




BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
www.fframia.com FFRAMIO LLUNIAU

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

# LLANBERIS

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebos neu alwad personol trwy'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*. Diolch yn fawr.

**Wythnos Cymorth Cristnogol**
Ni fu'n bosibl gwneud y casgliad arferol o ddrws i ddrws yn Llanberis ar gyfer Apêl Wythnos Cymorth Cristnogol yn ystod mis Mai. Ond gwnaed apêl trwy *Gronyn*, taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las, a derbyniwyd o Lanberis a Deiniolen gyfanswm o £925.25 tuag at yr Apêl. Ar ran Cymorth Cristmogol, diolch yn fawr am yr holl gyfraniadau.

**Brecwast Mawr**
Fore Sadwrn, Mai 20, yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, cynhaliodd aelodau Eglwys Sant Padarn 'Frecwast Mawr' yn yr Eglwys. Daeth nifer dda yno i fwynhau brecwast llawn. Heb air o gelwydd, roedd cystal ag a gaech chi mewn unrhyw westy o safon. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhan o'r ymdrech arbennig hon a diolch iddynt am eu holl waith. Diolch hefyd i bawb a ddaeth yno i gefnogi ac i fwynhau'r brecwast. Gwnaed elw o £451.50 at Wythnos Cymorth Cristnogol.

**Clybiau a grwpiau**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:
**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis** – Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!
**Clwb Gwnio** – Cynhelir yn y Ganolfan ar brynhawn dydd Iau, rhwng 2.00 pm a 4.00 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol.
**Grŵp Pentref Taclus Llanberis** – Mae'r grŵp yn casglu sbwriel bob bore Sul trwy'r haf, hyd at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Mae'r grŵp yn cychwyn am 10.00 o'r gloch y bore o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni, ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau bob dydd Sadwrn ar dudalen y Grŵp ar *Facebook*.

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a.m. a 2:00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Capel Coch**
Oedfaon Mehefin – Gorffennaf:
Mehefin 25: 10.00 a.m. – Y Gweinidog
Gorffennaf 2: 10.00 a.m. – Y Gweinidog
Gorffennaf 9: 10.00 a.m. – Y Gweinidog
Gorffennaf 16: 10.00 a.m. – Y Parchg R O Jones
Gorffennaf 23: 10.30 a.m. – Y Gweinidog (Oedfa Fedydd). Sylwch ar yr amser gwahanol.
Gorffennaf 30: 10.00 a.m. – Mr Andrew Settatree

**Eglwys Sant Padarn**
Gwasanaethau mis Gorffennaf:
Gorffennaf 2 – 11.00yb: Cymun Bendigaid
Gorffennaf 9 – 11.00yb: Boreol Weddi
Gorffennaf 16 – 11.00yb: Cymun Bendigaid
Gorffennaf 23 – 8.00yb: Cymun Bendigaid; 11.00yb: Gwasanaeth Teulu
Gorffennaf 30, 11.00yb: Cymun Bendigaid; 5.00yh: Gwasanaeth unedig eglwysi Bro Eryri – Os bydd y tywydd yn ffafriol cynhelir y gwasanaeth ar lan Llyn Padarn; ond os ddim, bydd yn yr Eglwys.

Nant Peris
**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau mis Gorffennaf:
Gorffennaf 2 – 9:30yb: Boreol Weddi
Gorffennaf 9 – 9:30yb: Cymun Bendigaid; 4yh: Gwasanaeth Teulu
Gorffennaf 16 – 9:30yb: Boreol Weddi
Gorffennaf 23 – 9:30yh: Cymun Bendigaid
Gorffennaf 30 – 9:30yb: Cymun Bendigaid; 5yh: Gwasanaeth unedig eglwysi Bro Eryri – Os bydd y tywydd yn ffafriol cynhelir y gwasanaeth ar lan Llyn Padarn; ond os ddim, bydd yn Eglwys Sant Padarn.
Hefyd cynhelir gwasanaeth un ai'r Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob dydd Mawrth am 11.00yb.

# CHWILAIR MIS GORFFENNAF/AWST - BLODAU'R ARDD



| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | O | P | Y | S | P | E | R | T | M | A | C | E | R | L |
| C | Y | E | D | N | F | G | Dd | H | T | Ll | I | C | H | I |
| U | D | S | O | F | M | I | P | A | B | I | D | O | T | L |
| H | N | P | E | G | E | Ll | E | S | G | E | N | R | W | I |
| I | E | S | W | Dd | L | A | F | N | Y | M | H | N | Ch | R |
| D | B | Rh | O | S | Y | N | M | Y | N | Y | Dd | I | B | D |
| A | L | C | T | E | N | B | Ff | N | Ng | M | I | C | U | Y |
| F | O | G | N | R | M | S | L | T | C | A | T | Y | B | Ff |
| M | D | Ch | A | S | A | Ff | B | A | E | D | R | Ll | C | R |
| L | Y | E | F | N | I | T | G | F | I | S | W | E | I | Y |
| W | N | Th | A | Ch | R | B | Y | S | E | Dd | Y | C | W | N |
| S | H | C | L | Y | Ch | L | Y | S | E | R | N | R | N | Ll |
| I | A | G | E | O | I | S | E | R | E | N | Ll | Y | S | I |
| N | U | P | H | E | N | L | P | A | R | W | O | E | A | C |
| C | L | U | S | T | Y | M | O | Ch | Y | N | S | T | M | B |

**BLODYN HAUL**
**BYSEDD Y BLAIDD**
**BYSEDD Y CWN**
**CLUST Y MOCHYN**
**CLYCHLYS**
**CORNICYLL**
**GELLESGEN**
**LAFANT**
**LILI'R DYFFRYN**
**MELYN MAIR**
**PABI**
**PYS PER**
**RHOSYN MYNYDD**
**SERENLLYS**
**TRWYN LLO**

Dwi'n gyfarwydd â gwahanol enwau i rai o'r blodau sydd wedi eu cynnwys yn chwilair y mis hwn. Bysedd cochion yw enw arall ar fysedd y cwn. Ydach chi'n gyfarwydd a'r dywediad 'fel cacwn mewn bys coch' ? Mae'n ddisgrifiad da o sŵn di-baid! Efallai bod ganddoch chi enw arall ar rai o'r blodau uchod, croeso i chi gysylltu efo'r Eco os ydach chi am rannu.

Cewch yr atebion i'r chwilair hwn yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

**GEIRFA BLODAU'R ARDD –** GARDEN FLOWERS VOCABULARY

**blodyn haul** – sunflower
**bysedd y blaidd** – lupins
**bysedd y cŵn** – foxgloves
**clust y mochyn** – begonia
**clychlys** – campanula (*Canterbury Bells*)
**cornicyll** – nasturtium
**gellesgen** – iris
**lafant** – lavender
**lili'r dyffryn** – lily of the valley
**melyn mair** – marigold
**pabi** – poppy
**pys per** – sweet peas
**rhosyn mynydd** – paeony
**serenllys** – aster
**trwyn llo** – snapdragon



# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 16

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Argymhellir rhoi bwyd gwlyb dwywaith y dydd i gathod, a sicrhau bod bisgedi sych ar gael iddynt fel maen nhw angen. Mae'r bisgedi sych yn helpu i lanhau eu dannedd. A deud y gwir mae Bob reit gall yn peidio bwyta bwyd y deu-droediad, gan y gall rhai pethau megis nionod a siocled eu gwneud nhw'n sâl. Dylai bod dŵr glân ar gael iddynt bob amser ond peidiwch â rhoi llefrith iddynt gan fod cathod yn '*lactose intolerant'* Dydyn nhw ddim yn gallu treulio'r siwgr (*lactose*) sydd mewn llefrith ac mae'n gallu ypsetio eu stumog, yn union fel rhai pobl.

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori :

"Wel, mi ddaethon nhw'n ôl, ymhen hir a hwyr! Dim byd i mi wrth gwrs. Wnes i drio eu hanwybyddu nhw am sbel, gan eu bod nhw wedi mynd a 'ngadael i a heb ddod ag anrheg i mi. Ond roedd hi'n rhoi lot o fwythau i mi a'r un tal yn rhoi lot o sylw a thameidiau bach blasus i mi, felly, heb drio wir, dechreuais i ganu grwndi a chael fy hun yn eu dilyn nhw o gwmpas yr ardd i gael mwy o sylw. Wedi'r cyfan mi oeddwn i'n reit falch eu bod nhw wedi dod yn ôl ataf i.


Fuodd hi'n brysur drwy'r bore yn gosod eu dillad gwlyb nhw ar ddau linyn sy'n rhedeg ar hyd yr ardd ac wrthi fel lladd nadroedd yn plannu a dyfrio pethau yn yr ardd. Mae rhai o'r borderi efo rhwydi drostynt - '*Bob deterrent*' mae hi'n eu galw nhw. Mae o hefyd yn brysur yn torri'r gwair efo'r peiriant petrol swnllyd sydd gynno fo. Er mod i'n falch o'u cael nhw'n ôl dydw i ddim yn hoffi'r peiriant swnllyd ac yn cadw'n ddigon pell.

Piciais i fyny at y cwt sydd efo lot o ffenestri ynddo fo ym mhen ucha'r ardd (lle cynnes braf yn yr haf) i weld beth oedd hi'n ei wneud. Roedd yna ogla difyr iawn mewn un congl. A deud y gwir roeddwn i mor brysur yn ogleuo'r pethau bach fflwfflyd na wnes i ddim gweld y deu-droediaid diarth, dau ohonyn nhw, yn cerdded heibio'r tŷ! Dwi'm yn licio pobl ddiarth, os nad ydw i'n eu nabod nhw! Rhy hwyr i mi ffoi am y tŷ bellach! Ond mi aeth hi lawr atyn nhw a dechrau siarad, fel mae hi efo pob math o ddeu-droediaid. Roeddwn i mewn cyfyng gyngor os oeddwn i'n gallu sleifio heibio hi a dengid i'r tŷ, jest fel oeddwn i'n cychwyn mynd, a chuddio tu ôl i'r wal, glywais i gwestiwn, "Dyma'r tŷ lle mae Bob yn byw?"

Brensiach y cathod bach a mawr!! Sut oedd y deu-droed diarth yma'n gwbod mod i'n byw yma? Tŷ amdani felly, reit handi a phendroni am yr hyn glywais i.

Mae'r deu droediaid yn hoffi cael sŵn yn dod o focsys gwahanol maint a siâp hyd y tŷ. Mae yna luniau yn dod i fyny ar un ohonyn nhw, sy'n crogi ar y wal, ond mae'r lleill jest yn gneud sŵn.

Ddoe ddiwetha' glywiais i gân (dwi'n meddwl mai dyna be maen nhw'n eu galw nhw),



yn deud bod nhw isio bod yn enwog…

" Dwisio bod yn enwog,
Dwisio car mawr drud
Dwisio pawb i'n nabod i wrth gerdded lawr y stryd..."

Mmm…. Mi oeddwn i ffansi bod yn enwog pan oeddwn i'n gath fach. Ges i baweniad ar draws fy nghlustiau a gorchymyn gan mam i beidio bod yn wirion! Doedd yna ddim ffasiwn beth a chath enwog … erbyn meddwl does neb ond fy neu-droediaid i, a'r rhai sy'n dod yma weithiau, yn fy nabod i. Wnes i fentro cerdded lawr y stryd unwaith, pan oeddwn i'n ifanc, ac mi wnaeth un o'r pethau cyflym ar olwynion fy mrifo fi go iawn!...

Maen nhw'n nôl allan yn eistedd yn yfed yr hylif poeth yna maen nhw'n ei hoffi. Dwi'n mynd allan ar eu holau nhw. Mae hi efo bocs bach hirsgwar yn tynnu lluniau o'r pethau bach pluog yn bwyta ar y pethau maen nhw wedi eu hongian o gwmpas y lle. Weithiau mae hi'n tynnu lluniau pethau sy'n tyrru yn yr ardd a fi! Ges i gip ar un ohonyn nhw ond dallt dim pam bod nhw'n gneud ffasiwn beth. Wnai byth ddeall y deu-droediaid yma.

Dwi'n smalio nad ydw i'n gwrando, ond mae hi'n deud wrtho fo bod lot o bobl wedi hoffi ei lluniau hi ar 'ffês bwc'. Hefyd mod i'n enwog gan fod rhywun wedi ei holi hi os mai yma oeddwn i'n byw. Wel do, mi glywais i hynny efo fy nghlustiau i fy hun. Ond sut oedd rhywun, diarth, nad ydw i'n ei nabod, wedi pasio'r tŷ, yn dod lawr y llwybr ac wedi siarad efo hi ac yn gwbod amdana i. Mae'r deu-droed tal yn chwerthin a deud a deud mod i'n enwog oherwydd 'ffês bwc' ac Eco'r Wyddfa! Dwi wedi blino'n lân yn trio dal i fyny efo bob dim. Dwi'n gwbod be setlith petha, napan…

Pan dwi'n deffro, maen nhw allan eto, wrthi'n llosgi bwyd uwchben tân, er bod ganddyn nhw beiriannau tu mewn sy'n gneud hynny iddyn nhw. Maen nhw'n ei fwyta fo hefyd! Diolch byth dydyn nhw ddim yn cynnig yr un tamaid i mi. Ta waeth mae fy swper yn flasus, fel arfer. Maen nhw'n aros allan yn hwyr heno gan ei bod hi'n noson mor braf a dwi innau'n cadw llygaid arnyn nhw.

Mae'r awyr fu'n las drwy'r dydd yn troi'n lliwiau gwahanol, lliwiau debyg i'r tân fu'r deu-droediaid yn llosgi eu bwyd arno yn gynharach.

Waw! Wel am braf mae lliwiau'r tân a lliwiau tebyg i fy ffwr melfedaidd i yn streipiau yn yr awyr. Dwi'n neidio i ben y wal i gael golwg gwell arno. Maen nhw hefyd i'w gweld yn mwynhau'r lliwiau ac mae hi wrthi'n tynnu lluniau o'r awyr a fi efo'i bocs bach hirsgwar.

Dwi'n clywed y deu-droed tal yn deud, "Sbia arno fo! Mae o fel Llew Frenin yn edrach allan ar ei deyrnas!"

Llew Frenin? Go wir? Fel un o fy nghefndryd mawr o wlad Affrica bell (dwi wedi gweld lluniau ar y bocs hirsgwar yn y tŷ). Felly i'r ddau yma mi ydw i'n frenin ar fy nheyrnas i.

Dwi'n hoffi bod yn frenin ar fy nheyrnas fy hun. Braf byw yma, a chael fy neu-droediaid o'm cwmpas.








ECO'r Wyddfa
www.ecorwyddfa.co.uk

## WAUNFAWR

Gohebydd: Iola Llewelyn Gruffydd, Tegannedd. iolallew@hotmail.co.uk

**Damwain**
Yn anffodus, tra allan ar ei foto beic, mi gafodd Dean Clarke, Pant Waun ddamwain go ddrwg gan anafu ei goes. Anlwcus iawn Dean. Gobeithio byddi'n gwella yn llwyr ac yn fuan. Cofion cynnes atat.

**Nôl adra**
Braf iawn iawn yw cael dweud bod John ac Irene Roberts yn ôl adra ym Mhant Teg wedi 14 mis i ffwrdd. Difrodwyd tri o dai Stâd Glyn Afon yn dilyn tân yn y stâd fis Ebrill 2022, ac mae'r broses o ail adeiladu ac atgyweirio Pant Teg wedi cymryd tan rwan, ac mae gwaith pellach i'w wneud ar y ddau dŷ arall a ddifrodwyd.

Dymuna John ac Irene ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod yma.

**Tai Newydd Gerddi Bach**
Mae stryd newydd sbon wedi ei hadeiladu yn Waunfawr yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r stryd newydd wedi ei lleoli rhwng Dol Erddi a'r ffordd fawr, ac mae cae chwarae hwylus yn union tu ôl iddynt. Braf yw cael croesawu pedwar teulu lleol i fyw yma. Mae'r enw Gerddi Bach wedi dod o'r llwybr cyfagos a elwir yn gerddi bach. Gobeithio byddwch i gyd yn hapus iawn yn eich cartrefi newydd.

**Mascot tîm Pel Droed Cymru**
Llongyfarchiadau enfawr i Caleb Grove, Tref Eilian ar gael ei ddewis i fod yn mascot i dîm pel droed Cymru. Bydd Caleb yn teithio lawr i Gaerdydd i ymuno gyda'r tîm ar gyfer eu gêm nesa, a dwi'n siwr bydd pawb yn Waunfawr yn gobeithio dy weld ar y teledu yn arwain y tim allan ar y cae cyn y gêm Caleb. Cofia anfon lluniau i ni yma yn yr Eco er mwyn eu rhannu efo pawb fis nesa.

**Newid mân**
Oes ganddoch chi newid mân yn cuddio yn y tŷ? Mae Siop Pant Waen aml yn fyr o arian parod, ac mi fyddent wrth eu boddau os ydych hi yn gallu mynd ac arian parod nad ydych yn mynd i'w ddefnyddio bellach i'r siop i'w gyfenwid.

## DINORWIG

**Tywydd**
Ni all yr un ohonom gwyno eleni am dywydd mis Mai. Cafwyd mis heulog er fod y gwynt braidd yn oer fore a nos. Y gog yn dal gyda ni, ac yn canu yma'n Ninorwig bob bore. Dim ond unwaith y clywais hi y llynedd, ond mae mor wahanol eleni, er fod amser ei mudo yn nesáu.

**Eisteddfod yr Urdd**
Cafwyd tywydd arbennig yn Llanymddyfri a gwnaeth rhanbarth Eryri yn arbennig o dda. Llongyfarchiadau mawr i bawb o'r fro a fu'n llwyddiannus yn y gwahanol gystadlaethau, ac er na fu pawb yn ffodus i gael gwobr, gwell lwc y flwyddyn nesaf. Ein diolch hefyd i'r rhieni ac i'r holl hyfforddwyr. Does ond gobeithio y caiff yr Eisteddfod Genedlaethol gystal tywydd a llwyddiant.

**Ffilmio**
Cafodd trigolion yr ardal wybodaeth fod cwmni ffilmio o Lundain yn bwriadu dod yma ac i'r chwarel ar y 5ed a'r 6ed o Orffennaf. Rwy'n sicr y bydd prysurdeb mawr dros y cyfnod. Ond rhaid gofyn a fydd Dinorwig ar ei ennill o hyn? Deallwn fod Llechi Cymru yn cael rhodd drwy law Cyngor Gwynedd oherwydd y gwaith ffilmio. Sut tybed y bydd Dinorwig yn elwa? Mae'n debygol y bydd mwy o drafnidiaeth nac arfer yn ystod cyfnod y ffilmio a rhaid gobeithio na fydd damwain ar y ffordd o Ddeiniolen i fyny yma ac i'r Allt Ddu yn ystod y prysurdeb. Fel sy'n hysbys, mae gormodedd o draffig eisoes yn yr Allt ddu a'r problemau sydd ynghlwm â hynny. Dymunwn bob llwyddiant i'r cwmni sydd yn ffilmio rhaglen o'r enw *Red Gun*.

**Gwasanaethau Gorffennaf**
25ain Mehefin: Mr Arwel Williams, Caernarfon, 3.30PM.
2il Gorffennaf: Y Parch John Pritchard, Gweinidog, 3.30PM.
9fed Gorffennaf: Gwasanaeth i'w drefnu, 3.30PM.
16eg Gorffennaf: Y Parch John Pritchard, Gweinidog, 3.30PM.
23ain Gorffennaf: Mr John Roberts, Llanfair, 5.00PM
30ain Gorffennaf Mr Robert Morris, Penygroes, 5.00PM.

**Gofalaeth Fro y Llechen Las**
Yr ydym yn parhau i drafod a gwneud trefniadau er symud ymlaen gyda'r ofalaeth.

**Cofion**
Ein cofion at bawb yn yr ardal sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Da deall fod Delwen, Bron Eilian yn gwella yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Penblwydd**
Llongyfarchiadau i Haf, Llwydfryn ar ddathlu ei phenblwydd yn 30 oed ddechrau fis Mai. Cafwyd parti gyda'r teulu yn y cartref.

**Llongyfarchiadau**
Unwaith eto llongyfarchwn Hannah, Ty'r Ysgol ar ddod yn hen nain eto, a Lois, ei hwyres wedi cael geneth.

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | E | D | W | E | N | A | U | B | C | Ff | Ch |
| S | Th | M | T | R | E | G | Dd | N | R | A | Y |
| C | L | C | E | R | Dd | I | N | E | N | W | N |
| E | A | R | Ff | L | Y | G | E | Dd | A | Y | R |
| I | N | O | T | S | W | E | N | Y | I | Dd | S |
| R | E | N | Y | T | N | N | E | W | R | E | D |
| I | N | E | R | E | A | O | R | N | D | N | U |
| O | R | G | F | Ch | T | P | R | I | N | A | R |
| S | E | Y | D | A | S | L | D | P | W | Ng | U |
| R | W | L | A | F | A | Dd | N | E | N | N | O |
| Ll | G | E | I | W | C | E | L | Y | N | T | Rh |
| M | A | H | C | R | I | A | F | O | L | E | N |

## ATEBION I CHWILAIR MIS MEHEFIN - COED

Dyma'r ateb i'r cwestiwn ofynwyd - Pa ddau enw sy'n cael eu defnyddio ar gyfer yr un goeden?

Yr ateb yn Gymraeg oedd **Cerddinen** a'r **Griafolen**, ac yn yr eirfa Saesneg ***Rowan*** a'r ***Mountain Ash***.

**AFAL**
**BEDWEN**
**CASTANWYDDEN**
**CEIRIOS**
**CELYN**
**CERDDINEN**
**CRIAFOLEN**
**DERWEN**
**DRAENEN DDU**
**FFAWYDDEN**
**GWERNEN**
**HELYGEN**
**LLWYFEN**
**ONNEN**
**PINWYDDEN**

Gobeithio ddaethoch chi o hyd i'r holl goed!



## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**

Yng nghyfarfod diwethaf y gangen, croesawyd pawb yn gynnes gan ein llywydd i noson o adloniant gyda gêm Bingo ar thema blodau.

Roedd gweithgaredd y noson dan ofal Nicola.

Cafwyd noson o fwynhad a diolch i bawb am gyfrannu eitemau ar gyfer y gwobrau.

# Cronfa Goffa R. H. Owen

**Ceisiadau ar gyfer y flwyddyn Medi 2023 – Awst 2024**

Mae Cronfa Goffa R. H. Owen yn gwahodd myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau academaidd a galwedigaethol neu brentisiaethau i wneud cais am gymorth ariannol ar gyfer y flwyddyn addysgol Medi 2023 – Awst 2024.

Bu'r Gronfa'n dyfarnu grantiau bychain yn flynyddol i fyfyrwyr y fro hon ers 1974. Daw'r arian ar gyfer y grantiau o'r llogau a geir ar yr arian a fuddsoddwyd ganddi. Fel pob elusen arall, gwelodd y Gronfa ostyngiad sylweddol i'w llogau dros y blynyddoedd diwethaf, ac o'r herwydd mae Ymddiriedolwyr y Gronfa'n gwerthfawrogi pob rhodd ariannol a dderbyniwyd o bryd i'w gilydd oddi wrth ymysg eraill, Y Ganolfan yn Llanberis a rhai o Gynghorau Cymuned dalgylch y Gronfa. Bu'r rhoddion hynny o gymorth wrth i'r llogau leihau, ac yn naturiol byddai Ymddiriedolwyr y Gronfa'n ddiolchgar am unrhyw gyfraniadau pellach.

Er mai yn Llanberis y sefydlwyd y Gronfa, nid yw'n gyfyngedig i'r pentref. O'r cychwyn, bu'r grantiau ar gael i unrhyw un o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail, ble bynnag y mae'n byw. Oherwydd y cysylltiad gwreiddiol â Llanberis, mae'r Gronfa hefyd yn caniatáu ceisiadau oddi wrth bobl ifanc dan 25 mlwydd oed a aned yn Llanberis neu sydd â'u rheini wedi byw yn Llanberis ers o leiaf 5 mlynedd. Ond anaml iawn, os o gwbl, y dyfarnwyd grant dan yr amod hwnnw gan mai myfyrwyr a fu yn Ysgol Brynrefail yw'r mwyafrif (os nad pawb) a wnaeth gais am gymorth.

Cynigir grantiau bychain i helpu myfyrwyr i ddilyn cyrsiau academaidd a galwedigaethol a phrentisiaethau mewn prifysgol a choleg a gweithle. Mae'r Gronfa'n caniatáu i fyfyriwr ymgeisio am grant dair gwaith. Mae'r grantiau bychain wedi galluogi myfyrwyr er enghraifft i brynu llyfrau neu offer ar gyfer eu cyrsiau. Yn naturiol, mae'r arian a ddyfernir yn dibynnu ar ddau beth: nifer yr ymgeiswyr a faint o arian sydd ar gael unrhyw flwyddyn.

Gwahoddir cyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail i wneud cais am gymorth o'r Gronfa trwy lenwi a dychwelyd y ffurflen gais erbyn Medi 30, 2023. Cysylltwch ag Ysgrifennydd y Gronfa, Heather Jones, i gael y ffurflen gais: **heatherjones37@aol.com** neu **07867 982518**.

## Cronfa Goffa R H Owen

### Grantiau Medi 2023–Awst 2024

Derbynnir ceisiadau oddi wrth gyn-ddisgyblion o Ysgol Brynrefail am gymorth ariannol i ddilyn cyrsiau academaidd neu alwedigaethol yn ystod y flwyddyn Medi 2023 – Awst 2024, erbyn 30ain Medi 2023.

Anfonwch e-bost at Ysgrifennydd y Gronfa, Heather Jones am ffurflen gais **heatherjones37@aol.com**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch trwy e-bost neu trwy ffonio **07867 982518**.

# Ysgol Brynrefail

**Chwaraewr Pêl- fasged o fri**

Llongyfarchiadau i Sam Booth, disgybl Blwyddyn 10 ac aelod brwd o glwb pêl-fasged Dreigiau Caernarfon. Fe gafodd ei ddewis i gynrychioli Cymru yn nhwrnament pêl-fasged bechgyn dan 15eg y tair gwlad yn Dundee ar 27ain a'r 28ain o Fai. Roedd y twrnament yn cynnwys yr Alban a Lloegr a llwyddodd Cymru i guro tim Lloegr (1) a'r Alban gan golli mewn gem agos i Loegr (2) gan ddod yn ail yn y twrnament. Da iawn Sam!



**Râs 5k Llanrug**

Cynhaliwyd ras arbennig o lwyddiannus nos Fercher, 7fed Mehefin gyda llu o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan. Bu rhai o'r staff wrthi'n brysur yn rhedeg hefyd! Diolch i staff a charedigion Ysgol Gynradd Llanrug am drefnu digwyddiad hynod o lwyddiannus.




**Imrie**

Ar ddydd Iau, 9fed Mehefin aeth criw o ddisgyblion bl 9 a 10 i Pontio ym Mangor i wylio'r ddrama 'Imrie' gan Gwmni Drama Fran Wen. Roedd hwn yn gynhyrchiad cyfoes yn trin a thrafod themau o gydraddoldeb, rhywioldeb a hiliaeth a fwynhawyd gan bawb. Diolch i staff yr adran Gymraeg am drefnu a chefnogi.



**Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl**

Yn ystod wythnos 15ed – 21ain Mai cynhaliwyd gweithgaredd gwahanol bob bore i hybu iechyd meddwl. Gan mai ffocws yr wythnos y flwyddyn yma oedd gor-bryder roedd pob gweithgaredd yn rhai i ddelio gyda hynny.

Cafwyd cyflwyniad am sut yn union mae gor-bryder yn effeithio ar y corff a'r meddwl a beth sy'n gallu gweithio er mwyn delio gyda hynny. Cafwyd cyfle hefyd i ddysgu mwy am yr ymennydd a beth yn union sy'n digwydd pan rydym yn teimlo'n or-bryderus. Cawsom hefyd ymarferion anadlu i'w hymarfer, ymarfer tylino'r dwylo a chwis hwyliog ar ddiwedd yr wythnos gan mai un o'r ffyrdd gorau o ddelio gyda gor-bryder ydi mwynhau a chael hwyl.

**Helfa Drysor**

Cofiwch am yr helfa drysor am 6ed Gorffennaf. Dewch i gefnogi a mwynhau!







## Eisteddfod yr Urdd

Teithiodd nifer dda o ddisgyblion i Lanymddyfri i gystalu yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin eleni.

Llongyfarchidau mawr i bawb a gystadlodd yno. Diolch o galon i'r staff a fu'n hyfforddi ac yn cefnogi hefyd! Yn y lluniau fe welwch y Parti Llefaru a ddaeth yn drydydd, y Côr Hŷn a'r Parti Bechgyn Hŷn – diolch arbennig i Mrs Lowri Roberts, Mrs Anwen Edwards a Mr Huw Harvey.

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Mirain Llwyd o flwyddyn 9 a Gruff Llwyd o flwyddyn 11 am gipio'r 3edd wobr am ysgrifennu stori yn y cystadlaethau gwaith cartref. Daeth Mirain i'r brig am ei stori'n dwyn y teitl *Rebel* a Gruff am stori am *Frwydr* mewn cystadleuaeth i unigolion dan 19eg oed. Mae'r ddau'n digwydd bod yn frawd a chwaer, felly mae'n amlwg fod y ddawn yn rhedeg yn y teulu!







# LLANRUG

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023**
Llongyfarchiadau calonnog i blant a phobl ifanc bro'r Eco ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Llanymddyfri yn ystod wythnos hanner tymor y Sulgwyn. Diolch o galon i holl staff yr ysgolion a'r hyfforddwyr i gyd am fisoedd prysur o hyfforddi ac ymarfer, ac am roi'r cyfle a phrofiad amhrisiadwy i bob un. Rydym fel bro yn hynod falch o'ch llwyddiant. Ymlaen rwan at Eisteddfod yr Urdd Maldwyn yn 2024!

**Profedigaeth**
Daeth y newyddion trist am farwolaeth John Anthony Thirsk, Ellan Vannin, Llanrug fu farw ar yr 21ain o Fai yn dawel yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn meddwl am ei wraig Samantha a'r plant Jenny, Nick a'r ddiweddar Ellen. Roedd yn daid amhrisiadwy i'w holl wyrion a wyresau. Colled fawr i'w deulu a'i ffrindiau oll ac rydym yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu.

**Capel y Rhos - Oedfaon mis Gorffennaf:**
2il Gorffennaf - Oedfa i'w threfnu
9fed Gorffennaf - Y Parch. Nerys Anne Griffiths ein gweinidog
16eg Gorffennaf - Canon Idris Thomas
23ain Gorffennaf - Oedfa i'w threfnu
30ain Gorffennaf – Y Parch. Nerys Anne Griffiths ein gweinidog

Ni chynhelir oedfa yn ystod mis Awst.

**Croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol a Phenwythnos Harddu**
O'r diwedd mae wythnos Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ar y gorwel, a mawr yw'r disgwyl am y Sadwrn cyntaf ar y 5ed o Awst. Mae'r Eisteddfod yn cynnal Penwythnos Harddu arbennig rhwng y 1af a'r 2il o Orffennaf, i annog y cymunedau sydd yn nhalgylch yr Eisteddfod i baratoi ar gyfer wythnos yr Eisteddfod, a dod at ei gilydd i gymdeithasu yr un pryd. Eisoes, mae llawer o waith casglu sbwriel wedi ei wneud, ac mae taclusrwydd fel hyn yn hanfodol ar gyfer creu awyrgylch o groeso a chyfeillgarwch. Syniadau eraill ar gyfer harddu yw rhubanau, bwganod brain, celf, bunting, llusernau a chynnal prynhawn o weithgareddau creadigol ar gyfer plant. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan *Pecyn Harddu Llŷn ac Eifionydd – Eisteddfod Genedlaethol* fel eich bod yn gallu lawrlwytho posteri a bod yn ymwybodol o sut i gael caniatad y Cyngor gydag ambell i beth. Yn sicr, nid yw trigolion yr ardal yn brin o syniadau, felly beth amdani a rhoi o'n gorau i'r ymgyrch harddu er mwyn dangos ein bod yn rhoi croeso mawr i bawb.

**Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023**
Dros gyfnod o fisoedd lawer, ymddangosodd adroddiadau am ddigwyddiadau amrywiol a gynhaliwyd yn ardal Llanrug er mwyn codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2023. Erbyn hyn, mae'r gweithgareddau wedi dod i ben, a phleser o'r mwyaf yw cyhoeddi fod Pwyllgor Apêl Llanrug ar hyn bryd wedi llwyddo i godi £7,348 tuag at Gronfa Leol yr Eisteddfod; y targed a osodwyd i ardal Llanrug oedd £5,000, felly mae'r ardal hon yn sicr wedi gwneud yn eithriadol.

Mae aelodau'r Pwyllgor Apêl yn hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth aruthrol a ddangoswyd gan drigolion yr ardal. Mae busnesau lleol wedi bod yn gymorth mawr gyda lleoli gweithgareddau yn y busnes, rhoi gwasanaeth fu'n fodd i godi arian, rhoi yn hael iawn tuag at wobrau raffl yn y digwyddiadau, caniatau blychau codi arian i gael eu lleoli yn y busnesau, ynghyd â chefnogaeth gyffredinol wych. Bu sefydliadau eraill hefyd yn flaenllaw iawn yn cyfrannu tuag at lwyddiant yr apêl mewn amryfal ffyrdd. Yn ogystal, derbyniwyd cyfraniadau ariannol gan unigolion ac, ymhellach, bu nifer o unigolion yn rhoi llawer iawn o gymorth gyda threfnu gweithgareddau.

Yn ôl yr adborth a dderbyniwyd, bu'r gweithgareddau amrywiol yn llwyddiant mawr a phawb wedi cael llawer iawn o fwynhad. Mae aelodau'r Pwyllgor Apêl yn hynod ddiolchgar i bawb fu'n cefnogi ac yn mynychu'r gweithgareddau, yn sicr ar ôl cyfnod anodd a thywyll y pandemig. Bu'r gweithgareddau yn fodd i fywiogi'r ardal ac ail gynnau'r fflam. Y gobaith yw y bydd y gwaith codi arian tuag at yr Eisteddod yn sylfaen i gynnal gweithgareddau amrywiol ar gyfer y dyfodol, ac ymddengys bod pethau eisoes yn digwydd yn y cyfeiriad hwn.

Gyda diolchiadau i'r busnesau lleol canlynol: Tafarn Penbont, Tafarn Y Glyntwrog, Y Dyn Cig, Bysiau Arvonia, Garej Ceris, Wavell, Spar, Co-op Llanrug, Modurdy Cwm-y-Glo, Siop Trin Gwallt Elaines.

Diolchiadau i'r sefydliadau canlynol: Menter Fachwen (teithiau cerdded gwych), Ysgol Gynradd Llanrug, Ysgol Brynrefail, Côr Dre, Seindorf Arian Llanrug, Capel y Rhos, Cangen Llanrug o Ferched y Wawr.

Diolchiadau i unigolion: Dafydd Whiteside Thomas, Bethan Roberts, Arwel (Hogia'r Wyddfa), Dafydd a Vera Cwm-y-Glo ynghyd â chyfraniadau gan unigolion eraill sydd rhy niferus i'w henwi.

Diolch yn fawr i holl drigolion ardal Llanrug.



## Hafan Elan

Ganol mis Mai fe gawsom fore coffi yn y Ganolfan. Trefnwyd y digwyddiad gan Andrea Pugh sydd yn aelod o Gôr Makaton - Dwylo Llawen. Braf iawn oedd gweld nifer o'r pentref a chefnogwyr wedi dod yno. Gwnaed elw o £180 tuag at Dwylo Llawen. Da iawn yn wir Andrea a diolch i ti.

Diwedd mis Mai trefnodd Beverley y warden ac Elizabeth fod pawb yn cael mynd i Pant Du, Penygroes am bryd o fwyd. Roedd hi'n ddiwrnod hynod o braf. Diolch i chwi eich dwy am wneud y trefniadau.

**Merched y Wawr**
**13eg Mai**
Bu pum aelod o'r Gangen i Ŵyl y Pum Rhanbarth yn Neuadd Glannau Ffraw, Aberffraw. Mwynhawyd eitemau rhaglen y dydd gyda chroeso twymgalon i neuadd lawn gan Margaret Roberts, Llywydd y pum rhanbarth a Jill Lewis, llywydd Cenedlaethol a Gaenor Roberts, Is-lywydd Cenedlaethol. Cafwyd amrywiol eitemau gan aelodau ifanc Theatr Fach Llangefni a sgwrs gan Dr Mari Lloyd Williams am 'Gofal a Gofalus'.

Wedi cinio ardderchog cafwyd ffilm 'Gwlân, gwlân, gwlana' dan ofal Owenna Davies a Mair Jones ac i gloi mwynhawyd eitemau ar y thema 'Cariad', gan gôr Côronwy.

**13eg Mehefin**
Bu nifer dda o aelodau'r gangen i fwyty Melys yng Nghaernarfon i fwynhau bwffe ac i orffen tymor llwyddiannus dan lywyddiaeth rhadlon Mair Huws a chefnogaeth gref y Swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor. Ceir adroddiad am y noson yn y rhifyn nesaf. Dymuna'r Gangen longyfarch Gareth Roberts, o Fenter Fachwen a fu'n olrhain hanes y fenter i ni yn gynharach ym mis Mai, ar gael ei dderbyn yn haeddiannol i'r Wisg Werdd, Gorsedd y Beirdd yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, un sydd wedi datblygu gwasanaethau i bobl gydag anableddau dysgu er mwyn iddynt gael yr hawl i gael patrymau normal yn eu cymunedau.

**Ymateb Ymweliad 'Iaith ar Daith'**
Chwi gofiwch i'r gangen gael ymweliad arbennig pan ddaeth criw rhaglen deledu 'Iaith ar Daith' i'r Sefydliad Coffa i gyfarfod yr actores Jessica Hynes a oedd yn cael ei thywys o gwmpas Cymru gan Lisa Palfrey. Gofynnodd Ann Ifans iddi o ble 'roedd hi'n dod ac atebodd - Folkstone Llundain. Dywedodd Ann fod ganddi nai yn cadw siop o'r enw Moda yn Folkstone a'i fod yn hanu o Lanrug. Fe wyddai Jessica'n iawn am y siop ac fe alwodd i weld Tudur (mab Mary a Meurig Parry) a chafodd gyfle i gael sgwrs yn y Gymraeg efo Tudur.

Atgoffir pawb bydd Tâl Aelodaeth yn £20 a Raffl yn £3 o fis Medi ymlaen.

Mae croeso mawr i aelodau newydd.

Mwynhewch y gwyliau a welwn ni chi ar yr ail nos Fawrth bob mis.

# Ysgol Waunfawr

**Ffair Haf 21/6/23**
Dewch yn llu.  Bydd digon o stondinau a gemau ac adloniant ar gyfer y plant.

**Criced**
Llongyfarchiadau i'r tîm criced Blwyddyn 4 am gystadlu yn ddiweddar ac i Anti Mari a Mr Carwyn am eu tywys.



**Cyngor Ysgol**
Bu i aelodau o'r Cyngor Ysgol gyfarch y Corff Llywodraethol yn ddiweddar er mwyn eu hysbysu am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Maent yn griw hynod o frwdfrydig ac yn awyddus iawn i godi arian ar gyfer elusennau.



**Brechdan Jam**
Braf iawn oedd derbyn brechdan jam gan blant y dosbarth derbyn yn ddiweddar – pob aelod o'r dosbarth wedi dysgu am y cynhwysion ac wedi dysgu sut i roi trefn ar y cyfarwyddiadau. Braf oedd cael eistedd allan i fwynhau'r frechdan yn yr heulwen.





**Dringo ar gyfer cansr (Climbers For Cancer)**
Bu i Luca a Daniel Boswell ddringo 3 chopa Cymru mewn 24 awr yn ddiweddar er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen. Hyd yma, maent wedi casglu dros £1500. Ardderchog wir hogia – tipyn o gamp!

**Welsh Whisperer**
Cawsom bnawn hyfryd yng nghwmni'r Welsh Whisperer yn ddiweddar. Pob dosbarth wedi cael sesiwn ac yna gig ysgol gyfan yn yr heulwen – bendigedig!





**Sioe Mewn Cymeriad**
Bu i flynyddoedd 3/4/5 fwynhau sioe 10 stori o Gymru yn ddiweddar. Cafodd pob grŵp gyfle i actio a chyfleu ffeithiau am y cymeriadau hanesyddol. Bore difyr tu hwnt.

# GASWORCS LLANBERIS

## (Rhan 1)

**Cefndir Hanesyddol**

Roedd y ffaith fod nwy, oedd yn darparu gwres a golau wrth ei losgi, yn cael ei gynhyrchu wrth gynhesu glo heb aer, yn wybodus ers canrifoedd. Ond yn 1790 fe greodd Albanwr o'r enw William Murdoch 'bopty' oedd yn galluogi creu Nwy Glo ar raddfa ddiwydiannol.

Roedd y datblygiad yn cyd-fynd â'r Chwyldro Diwydiannol ac yn chwarae rhan bwysig iawn yn natblygiad cynnar y Chwyldro hwnnw. Gan fod angen cyflenwad mawr o lo ynghyd â chysylltiad â diwydiant a phoblogaeth ar gyfer y datblygiad, adeiladwyd y gweithfeydd nwy cynnar mewn porthladdoedd, ar lannau afonydd mawr neu ar ochr camlesi. Ond gyda dyfodiad y rheilffordd i bob rhan o wledydd Prydain, doedd y cysylltiad â chyflenwad glo ddim yn broblem bellach, a datblygwyd mwy a mwy o weithfeydd nwy mewn trefi bach a mawr.

**Datblygiad 'Gasworcs' Llanberis**

Er na welais gyfeiriad at yr union ddyddiad yr agorwyd ein Gasworcs ni, mae Dafydd Whiteside, yn ei erthygl 'Chwilota' yn rhifyn Rhagfyr 1990 yr *Eco* yn sôn am agor Gasworcs Llanberis yn 1871, yr un amser ag yr agorwyd y Market Hall a dwy flynedd wedi dyfodiad y Rheilffordd i Lanberis.

Yng Nghyfrifiad 1881 mae teulu'n byw yn 'Y Gasworks', sef David Jones (29), 'Gas Man', gyda gwraig a thri o blant, yr hynaf yn 5 oed, i gyd wedi eu geni yn Llanberis. Golyga hyn fod David Jones yn byw yn Llanberis yn o leiaf 1876 a mwyaf tebyg yn 'Gas Man' ar y pryd.

Mi welais gynllun o 1876 gan Mr T H Goodwin Newton yn cynnig tai, ar les neu rydd-ddeiliad, yn strydoedd newydd Thomas, Henry, Newton ac Afon Teras, ac mae'r Gasworcs yn rhan o'r cynllun, yn union ble roedd pan oeddwn i'n blentyn! Enw llawn y datblygwr oedd Thomas Henry Goodwin Newton, ac mae'r enwau a roddodd ef i'r strydoedd yn dal arnynt heddiw.

**Y broses o gynhyrchu nwy glo mewn gasworcs**

Yn dilyn cynhesu'r glo yn y 'popty' byddai'r nwy, heb ei lanhau, yn mynd o'r 'popty' trwy bibellau, gan adael golosg neu 'coke' ar ei ôl. Byddai'r 'coke', wedi iddo oeri, yn cael ei ddefnyddio fel tanwydd i gynhesu'r 'popty' neu'n cael ei 'fagio' a'i ddosbarthu i gwsmeriaid (megis tai, busnesau, gwestai ac addoldai). O gael ei ollwng o'r 'popty', roedd y nwy yn y pibellau yn cael ei oeri er mwyn cael gwared â'r 'coal tar' oedd ynddo. Byddai'r 'coal tar' yn rhedeg i mewn i bydew yn y ddaear cyn cael ei ddosbarthu i gwsmeriaid diwydiannol. Wedyn, byddai'r nwy yn cael ei basio trwy gyflenwad dŵr er mwyn cael gwared â'r Amonia a'r Sylffwr (Ammonia a Sulphur). Roedd posib i'r gwrtaith Ammonium Sulphate gael ei greu allan o'r dŵr yma.

Rwy'n ymddiheuro am symleiddio'r broses gemegol oedd yn mynd ymlaen ym mhob gasworcs! Byddai'r nwy glân (?) yn cael ei gadw mewn tanciau anferth, a'r lefel yn codi neu ostwng yn dibynnu ar faint o gyflenwad nwy oedd ynddo. Wrth reoli uchder y tanciau, roedd modd rheoli pwysedd y nwy a gâi ei ddosbarthu trwy'r rhwydwaith o bibellau i gwsmeriaid yr ardal.

Un tanc nwy mawr oedd ar safle Gasworcs Llanberis. Gweler y llun sydd wedi ei dynnu o dros y ffordd i Ripon House, Field Teras. Mae'r llun arall o'r Gasworcs wedi ei dynnu o ben uchaf stryd Rallt Goch. Doeddwn i ddim yn cofio bod y llun yma gennyf, nag o ble y daeth. Efallai mai un o luniau Isaac Hughes ydyw, a fy mod wedi ei dderbyn trwy law Gareth Roberts. Prif ddefnydd y nwy ar y cychwyn oedd goleuo adeiladau a strydoedd, ond tua diwedd yr 1870au daeth 'cookers' nwy yn boblogaidd, gan ychwanegu at farchnad ac incwm y Gasworcs. Roedd '*showroom*', gyda '*cookers*' a pheiriannau nwy eraill ar werth ynddi, yn safle Gasworcs Llanberis; a mwyaf tebyg mai gweithwyr y Gwasworcs eu hunain oedd yn eu gosod a'u cysylltu â'r cyflenwad Nwy.

Yn ychwanegol at ddosbarthu a gwerthu nwy, roedd nifer fawr o'r Cwmnïau Nwy yng Ngogledd Cymru'n dosbarthu a gwerthu dŵr o fewn eu trefi a phentrefi. Mae'n debyg bod dynion y cwmnïau nwy yn brofiadol mewn agor ffosydd, a chan fod mantais ariannol o redeg y pibellau dŵr yn yr un ffos â'r bibell nwy bod y cwmnïau'n croesawu'r busnes ychwanegol! Mae enwau'r cwmnïau nwy'n dangos y cysylltiad hwn rhwng nwy a dŵr. Enw llawn y Cwmni Nwy yn Llanberis oedd 'The Llanberis Gas and Waterworks Company'.



Gasworcs Llanberis wedi ei dynnu o'r rhan uchaf o Rallt Goch



Llun o'r 'tanc' nwy oedd yn Gasworcs Llanberis pan y cauwyd ef.

Roedd gan gwmni nwy Llanberis ddwy gronfa ddŵr, y ddwy wedi eu lleoli ar Afon Goch: y naill ryw gan llath i lawr o ffermdy Caer Fran, a'r llall lai na chan llath uwchben Pont Maenllwyd, y bont a chwalwyd gan y tirlithriad ryw ugain mlynedd yn ôl. Mae'r ddwy gronfa i'w gweld yn glir ar Fap OS 1912, fel yr 'Holyhead and North Wales Gas and Water Corporation Reservoir'.

Yn ystod yr 1890au, gwelwyd problemau mawr ym musnesau Gasworcs yr ardal, gyda nifer yn mynd yn fethdalwyr a nifer yn ymuno mewn cwmni newydd, megis 'Holyhead and North Wales Gas and Water Corporation'. Fedra i ond tybio nad oedd y farchnad gwerthu nwy yn tyfu, neu ei bod yn gostwng hyd yn oed, oherwydd dyfodiad trydan i'r ardal. Fe gyfeiriodd Dafydd Whiteside at drybini'r cwmnïau mewn erthygl yn *Eco* Gorffennaf/Awst 2017

Deuthum ar draws cwmni arall wrth gasglu gwybodaeth sef, 'Llanberis *Gas Light and Coke*'. Ai cyfeiriad cyffredinol at bob Gasworcs oedd hwn?

*I'w barhau yn y rhifyn nesaf*

**Eifion Roberts**

ECO'r Wyddfa
www.ecorwyddfa.co.uk

# Ysgol Llanrug

**Criced**
Cafwyd dau ddiwrnod bendigedig i chwarae criced! Y plant ym mlwyddyn 6 wedi gwneud yn wych i gyrraedd rownd gyn-derfynol y twrnament a blwyddyn 3 a 4 yn curo! Cofiwch fod modd chwarae criced bob nos Wener gyda @BangorCricket a Chlwb Criced Porthaethwy.






**Porth Trecastell**
Cafodd blwyddyn 5 ddiwrnod anturus a heulog ym Mhorth Trecastell yn troi llaw at *'coasteering'* o dan arweiniad gofalus Canolfan Arete Llanrug. Diolch o galon am brofiad gwych a phawb wedi mwynhau trio rhywbeth newydd!










## Ras Llanrug a Thrawsgwlad Blwyddyn 6

**Cefnogaeth o Bell ac Agos**
Daeth bron i 400 o redwyr, yn blant ac oedolion, draw i Lanrug nos Fercher y 7fed o Fehefin. Roedd yr haul yn gwenu a'r awyrgylch yn braf wrth i'r plant fentro i redeg 1K a'r oedolion y 5K. Roedd y ras yn rhan o Bencampwriaeth Gogledd Cymru a gwelwyd rhedwyr o Wrecsam yn trafeilio yma. Braf oedd cael cymorth staff Ysgol Brynrefail a'r holl rieni ddaeth i gefnogi.

Cafwyd tywydd poeth hefyd i redeg y ras trawsgwlad draw yn Ysgol Brynrefail i blant blwyddyn 6. Roedd hi'n gyfle da i blant y dalgylch gael cymysgu cyn mynd i flwyddyn 7 ym mis Medi.



**Eisteddfod yr Urdd** Roeddem yn falch iawn o'r criw yma yng nghystadleuaeth y grŵp llefaru. Da iawn chi! Diolch i Mrs Llinos Evans am hyfforddi ac i'n rhieni. Mwynhaodd bawb ddiwrnod yn yr heulwen yn Llanymddyfri.

## Pythefnos Iechyd a Lles

Trefnwyd Ras am Fywyd i ddiweddu ein pythefnos. Diolch i'r pwyllgor am drefnu a chodwyd £338 i elusen Alder Hey.







# Crwydro gerddi

## Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru



1



2



3




4



5



6

Daeth cyfle ychydig o fisoedd yn ol i gael crwydro ychydig ymhellach na Deiniolen, Gwynedd a Gogledd Cymru. Taith lawr i Dde Cymru i gael profi'r ddinas fawr ddrwg, prif ddinas Cymru - Caerdydd am benwythnos hir, Gŵyl y Banc. Gwnaed penderfyniad mai un o'r llefydd roeddwn i, efe, y ferch a'r mab yng nghyfraith am ymweld â fo oedd Sain Ffagan, cyn mynd i'r gwesty.

Roedd hi'n ddiwrnod braf, o'r diwedd, ar ddiwedd mis Ebrill. Yr awyr yn las ac felly'n gwneud y broses o ymweld â hanes Cymru yn hynod o bleserus. Cychwyn efo ffermdy ac adeiladau Kennixton, y Twlc Mochyn crwn, er yn anffodus nad oedd na'r un mochyn ynddo fo, er mawr siom i'r ferch, oedd efo atgofion o weld un mawr tew yno, pan oedd hi ryw ugain mlynedd yn fengach.

Crwydro wedyn o gwmpas yr adeiladau hynafol, gan daro sgwrs efo'r staff, oedd yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o'n hanes ni. Oglau mwg coed yn ambell i dŷ ac ymlaen at un o fy hoff lefydd yn yr Amgueddfa, sef Tai Teras Rhyd-y-car. Mae gweld sut newidiodd bywydau pobl gyffredin, fel finnau, ar hyd y blynyddoedd, yn wefreiddiol. A rhaid i mi gyfaddef bod gweld datblygiad y gerddi bach wrth bob tŷ yn rhoi boddhad mawr i mi. Cofiwch, gallwch weld yr un math o beth yn nes at adref, yn y rhes o dai sydd yn Amgueddfa Lechi Llanberis. Mae rhai pethau'n debyg ar hyd a lled Cymru fach.

Erbyn hyn efallai eich bod yn gofyn, lle mae'r gerddi? Digon teg. Ar ôl crwydro o gwmpas rhai o'r adeiladau, wnaethom ni anelu at Gastell Sain Ffagan a Gerddi'r Castell. Wir yr, doeddwn i wedi bwriadu mynd ati i chwilio am erddi, pan benderfynwyd ein bod am fynd i Sain Ffagan.

A dyma siom o'r ochr orau! Arwyddion a bwtsias glas o dan y coed yn ein arwain ni at y gerddi. **1 + 2**

Dŵr yn rhedegfel rhuban i'r pwll o dan y castell. **3**

## Gwirfoddolwyr Caru Eryri yn mynd o nerth i nerth

Ers i'r grŵp Caru Eryri gael ei sefydlu rhyw dair blynedd yn ôl, maent wedi mynd o nerth i nerth. Mae'r gwirfoddolwyr wedi casglu oddeutu dwy dunnell o sbwriel dros y ddwy flynedd ddiwethaf o gwmpas ardaloedd ar hyd a lled Eryri gan gynnwys Ogwen, llwybrau'r Wyddfa, Llyn Tegid, Llyn Dinas ac Aberglaslyn.

Yn 2022 yn unig, treuliodd 87 o wirfoddolwyr 105 o ddiwrnodau a 2,640 o oriau gwirfoddoli yn gofalu am Eryri. Casglwyd llond 438 o fagiau o sbwriel oedd yn gyfanswm o 970kg!

Erbyn hyn, mae rhai gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant arweinyddiaeth er mwyn gallu arwain y grwpiau gwirfoddoli eu hunain. Mae'r gwirfoddolwyr yn cyfarfod pob dydd Gwener, Sadwrn a Sul i gasglu sbwriel o amgylch Eryri ac mae gwaith cynnal a chadw llwybrau troed yn digwydd ar ddydd Mercher.

Os oes gennych chi ddiddordeb ymuno a thîm gwych o wirfoddolwyr, cysylltwch gyda'n Swyddog Llesiant a Gwirfoddoli drwy ein tudalen Facebook neu Instagram Caru_ Eryri.





7



8



9



10



11



12



13



14



15

Coed ywen, wedi eu tocio i siâp, yn rhoi strwythur i'r olygfa, ac yn arwain y llygaid i fyny at y Castell

Digon o arwyddion rhag mynd ar goll. **4**

Yn ogystal â'r planhigion roedd strwythur cerrig hefyd yn rhan o'r gerddi. **5** Ambell i gerflun o fewn y gwelyau a blodau'n ychwanegu at yr hyn oedd i'w weld (5 dwi'n meddwl). **6 + 7**

Roedd y coed ywen, wedi eu tocio, hefyd yn ychwanegu at strwythur yr ardd. **8**

Roedd y bwa hir, di-ddailddiwedd Ebrill yn arwain o un ardal o'r ardd i'r llall ac yn creu golygfa a strwythur diddorol arall **9** giât hardd **10** a mainc o fewn y pren bocs, yn le arbennig o dda i gael hoe ac edrach ar yr ardd. **11**

Rydw i'n amau'n gryf bod Ebrill 2023 yn fis da i diwlipau. Lle bynnag dwi'n mynd, mae rhai lliwgar i'w gweld ym mhobman a melyn yr euphorbia'n hyfryd. **12 + 13 + 14**

Roedd yr olygfa gyntaf o'r castell yn hyfryd **15** A phlanhigion cyffredin fel y bergenia a'r rhedynnau yn harddu'r gwlau. **16 + 17**

Nad af i'n angof a hiraeth am adra … **18**

Coeden geirios hardd i'w gweld wrth edrych i lawr o'r castell **19**

Mae tîm o arddwyr yn cadw'r lle mewn trefn a llawer o blannu i gyd-fynd a'r adeiladau ar draws y safle cyfan, ond penderfynais byddai canolbwyntio ar gerddi'r castell yn ddigon i roi blas ar y lle i chi ddarllenwyr yr Eco.



16



17



18



19

# Cerdd Gair mewn Gwlân Disgyblion Ysgol Penisarwaun

Mae Ysgol Gymunedol Penisarwaun wedi cymryd rhan mewn prosiect hyfryd i baratoi at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Mae 'Gair mewn Gwlân' yn brosiect cymunedol i gasglu enwau cyfoethog sydd o fewn milltir sgwâr ein ysgolion ni a'u dathlu mewn murluniau a cherddi.

Mae grwpiau gweu a chrosio lleol wedi creu sgwariau gwlân i 30 ysgol y cynllun greu murluniau unigryw o wlân, gan osod y geiriau maen nhw wedi eu casglu arnynt. Bydd y murluniau yn cael eu harddangos yn yr Eisteddfod ym Moduan ym mis Awst ac yna i'w gweld yn eu cymunedau. Mae'r plant wedi bod yn brysur hefyd yn llunio cerddi gan ddefnyddio'r geiriau unigryw er mwyn dathlu eu bro a'u treftadaeth.

Dyma gerdd wych gan blant Ysgol Gymunedol Penisarwaun a chyflwyniad iddi ganddynt:

**Bywyd a gwaith Chwarelwyr Dinorwig**

Roedd Chwarel Dinorwig wedi ei rhannu'n amryw o ardaloedd gwaith. Roedd yr ardaloedd hyn yn aml yn cael eu galw yn bonciau neu sinc fel arfer. Roedd enwau gwahanol ar y rhain, rhai wedi eu henwi ar ôl gwledydd neu ardaloedd, rhai ar ôl ffermydd lleol oedd yn ffinio â'r ardal gloddio, eraill ar ôl aelodau o deulu'r perchennog ac eraill ar ôl rhai o'r chwarelwyr nodweddiadol a fu'n gweithio yno. Mae amryw o'r enwau hyn wedi eu cofnodi ond maent yn brysur cael eu colli wrth i fewnfudwyr ac ymwelwyr ddod i mewn a bathu termau Saesnig newydd sy'n cyd-fynd â'u hargraff nhw o'r tirlun yn hytrach na'r hanes a'r traddodiadau cyfoethog sy'n perthyn i'r ardal.

Rydym ni yma yn Ysgol Gymuned Penisarwaun yn awyddus i gadw enwau gwreiddiol y ponciau ar sinciau hyn yn fyw. O ganlyniad rydym wedi bod yn casglu enwau'r ponciau hyn ac wedi mynd ati i greu barddoniaeth er mwyn hyrwyddo'r enwau.




## Ponciau a Sinciau Dyffryn Peris

Sinc Wembley, Ponc yr Aifft ag Abysinia,
New York, Aberdaron a Chaliffornia,
Hafod Owen, Marchlyn ac Awstralia,
Dyma enwau rhai o'r ponciau.

Ponc Enid, Harriet, Alys a Matilda,
Chwarel Vivien, Julien a Veronica,
Anfarwoli'r teulu breintiedig
Oedd berchnogion ar Ddinorwig.

Ponc Robin Dre a Ponc Dafydd 'Refail,
Ponc Edward Jones a Phonc Robin 'Rabar,
Dyma gymeriadau lleol dylanwadol
A wnaeth argraff yn y Chwarel.

Twll y Mwg a Thwll y Dwndwr,
Twll Clawdd a Phonc y Teiliwr,
Yr Allt Goch a'r Allt ddu,
Yr hen enwau – dyna'n dewis ni!

Braint cael dysgu am y Chwarel a'i phobl
A pharchu hen enwau a'i pasio'n ddiogel
I genhedlaeth newydd o blant
Sy'n falch o ddysgu am eu hardal!

*gan blant Ysgol Gymunedol Penisarwaun*

SPAR

**Y Storfa, Spar, Llanrug**

Sgwâr Llanrug
01286 673108




Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes

Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

ECO'r Wyddfa
www.ecorwyddfa.co.uk

# Anrhydedd Karate



**Dau frawd o Benisarwaun gynt wedi ennill un o'r graddau uchaf mewn Karate.**
Yn ddiweddar ar gwrs Karate Rhyngwladol yn Windsor, enillodd Gwyn ac Alun Mowll y Gradd ROKUDAN sef 6ed Dan y gwregus Du. Y ddau yn wreiddiol o Benisarwaun, mae Gwyn eisoes wedi ymgartrefu yn Llanrug ac Alun yn Llangaffo. Er bod y ddau wedi treulio bythefnos yn mis Ionawr eleni yn teithio i Japan ac yn ymarfer gyda nifer o'r gwahanol feistri, adref y daethant i sefyll yr arholiad hollbwysig yma. Dywedodd Alun mai y peth pwysicaf ydi haeddu y radd, a bod y person sydd yn eich mentora ac yn eich arholi yn hollbwysig.

" I ni, 'Y' meistr yw Meistr Masao Kawasoe sydd yn fyd enwog ac ei farn o sydd yn ychwanegu urddas a chyfreithlondeb i'r radd. Dyna pam wnaethom ddisgwyl tan dod yn ôl gartref a sefyll yr arholiad o dan ei safonau uchel o".

Mae Gwyn eisioes wedi ymddeol o'i yrfa fel Prifathro Ysgol Gynradd ac am gyfnod byr tua diwedd yr 80'au cafodd y fraint o fod yn Brifathro dros dro ar Ysgol Tan y Coed Penisarwaun, sef yr ysgol gynradd y mynychodd ef a'i frawd tra yn blant.

Mae Alun yn gweithio fel rheolwr/addysgwr yr adran adfywio yn yr Awdurdod Iechyd Lleol.

Mae'r ddau frawd wedi bod yn ymarfer Karate am bron i 47 mlynedd bellach ac mae'r ddau yn rhedeg clwb karate "Mynydd y Ddraig Goch" y (Seki Ryu Zan) ar safle'r Normal Bangor LL57 2PZ.

## EGLWYS Y PLWYF LLANDDEINIOLEN

**NEWYDDION DA!**
Mewn cyfarfod agored a gynhaliwyd yn ddiweddar yn yr Eglwys, roedd yn amlwg fod awydd lleol am weld adeilad yr Eglwys yn agor unwaith eto ar gyfer addoliad cyhoeddus.

Yn dilyn y cyfarfod, penderfynwyd ail gychwyn addoli cyhoeddus ar y Sul cyntaf o bob mis, gan ddechrau ar yr 2ail o Orffennaf, 2023.

Bydd croeso cynnes i bawb sydd am ymuno â ni.





## PENISARWAUN

**Cymro**
Llongyfarchiadau i deulu Meillionydd ar enedigaeth eu mab bychan, Ifan, brawd bach gwerthfawr i'w chwaer fawr Heledd.

**Cofion**
Ein cofion anwylaf at bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref. Y mae Dilys, sydd yng nghartref Gofal Plas Pengwaith, Llanberis yn anfon ei chofion at bawb yn y pentref ac mae'n edrych ymlaen yn eiddgar am yr Eco bob mis.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Cynhaliwyd 'Miri Mai' ar 17eg Mai a bu'n noson hynod o lwyddiannus, gyda nifer dda o rieni, neiniau a theidiau a ffrindiau wedi ymuno yn y bwrlwm. Tynnwyd Clwb Cant Mai, a'r enillwyr oedd:
1af - Dafydd Owen, Brynhyfryd
2ail - Michael Jones, Tyddyn Perthi
Gwnaed elw sylweddol tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned gyda phris mynediad, raffl, tombola, gemau a gweithgareddau a drefnwyd gan blant yr Ysgol. I orffen y noson, trefnwyd rasys i'r gwahanol oedrannau ar gae chwarae'r Ysgol. Diolch i'r oedolion am ymuno yn yr hwyl o redeg a thaflu esgid law! Diolchir i bawb am y gefnogaeth gref ac am y cyfle i gymdeithasu gyda'n gilydd a dod i adnabod newydd ddyfodiaid y pentref.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddwys ag Eric a Liz, Wil a Jean a Phil a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Carol, gwraig Norman a chwaer-yng-nghyfraith hoff.

**Llongyfarchiadau**
Dymunir llongyfarch Gwyn Mowll am ei dderbyn i'r wisg las yng Ngorsedd y Beirdd yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst. Mae wedi cefnogi a hwyluso Carate Traddodiadol *Shatakan* yng Nghymru yn wirfoddol, gan gyffwrdd a thrawsnewid bywydau miloedd o drigolion Gogledd Cymru. Fe greodd Ffederasiwn Carate Traddodiadol Cymru gan sicrhau gwersi yn dairieithog - Cymraeg, Saesneg a Siapaneeg. Mae dyfodol pendant i'r grefft yng Nghymru gydag unigolion brwdfrydig fel Gwyn. Mae mam a'r teulu a phawb yn y pentref yn falch iawn o'th anrhydedd.
Darllenwch ragor o hanes Gwyn a'i frawd Alun ar y dudalen hon.

**Eisteddfod Bentref**
Cynhelir yr Eisteddfod ar nos Fercher 12fed Gorffennaf yn y Neuadd Gymuned am 6:00yh. Pris mynediad yw £3 i oedolion. Estynnir croeso i rieni a ffrindiau i ymuno yn y cystadlaethau oedolion, boed yn ganu, llefaru, offerynnol, coginio, celf, limrig neu'n frawddeg.

Mae'r ymarferion i blant wedi cychwyn bob nos Fercher rhwng 6 - 7:00 yh. Mae testunau ar gael yn yr ysgol neu drwy law Ann Ifans, Ysgrifennydd.

Yn yr Oedran Uwchradd, mae Cystadleuaeth 'Sgen ti dalent llwyfan?' **Canu** - unawd sioe gerdd, Alaw Werin, Deuawd, Band. **Llefaru** - unigol, ymgom, cyflwyniad dramatig, sgets. **Offerynnol** - unrhyw offeryn. **Dawnsio** - unigol neu grŵp neu unrhyw ddalen llwyfan arall yn y GYMRAEG. Gwobr - £50!!

**Apêl Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd**
Rydym bellach wedi cyrraedd y nod o £2,000 i Benisarwaun a Brynrefail, ond mae'r Apêl yn dal ar agor tan ddiwedd Gorffennaf. Gallwch anfon eich amlen i'r Ysgol neu i'ch dosbarthwr.

Mae Apêl Plwyf Llanddeiniolen hefyd wedi cyrraedd y nod, gyda diolch i bawb am eich cefnogaeth a'ch haelioni.

# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION CYFARFOD MIS MAI 2023

**1 CROESO**
Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor nos Fercher y 10fed o Fai am 7yh yn Y Ganolfan, Llanberis. Estynnwyd croeso i'r aelodau gan yr Is gadeirydd Gwilym Evans. Rhoddwyd croeso cynnes hefyd i Barry Davies a benodwyd yn ddiweddar fel Clerc a dymunwyd yn dda iddo. Bydd yn dechrau yn swyddogol ar Fehefin y 1af ond yn cysgodi DT dros y cyfnod cyn hynny a DT yn cynorthwyo BD yn y mis neu ddau wedyn.

**2 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU**
***Ward Padarn:*** Gwilym Evans, Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Nia Jones, Cyng. Kim Jones, Louise Price, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen,
***Ymddiheuriadau:*** Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Llinos Haf Pritchard.
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4. PENODI CADEIRYDD ac IS GADEIRYDD:**
Penodwyd Llinos Haf Pritchard yn gadeirydd a Gwilym Evans yn Is gadeirydd am y flwyddyn i ddod gydag awgrym fod y swyddi yma am ddwy flynedd gyda'r is Gadeirydd yn dilyn ymddeoliad y Cadeirydd, ond fe fydd angen cadarnhau yn flynyddol y penodiadau. Roedd y penderfyniad yn unfrydol. Cynnig ac eilio: HLJ / KJ.

**5 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 12fed o Ebrill, 2023 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: HLJ / HS.


**6 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
***1. Llwybr Pren Nantucha':***
Cafwyd ateb oddi wrth Cyngor Gwynedd (CG) yn nodi eu bod yn ymwybodol o gyflwr y llwybr pren, ond na fyddai'n gost effeithiol i'w drwsio, ac nad oedd arian ar gael i wneud unrhyw waith. Yn sgil y pryder am ddiogelwch ar y llwybr pren, dywedwyd y bydd CG yn atal pobl rhag ei ddefnyddio. Yn y cyfamser adroddwyd fod CG wedi bod yn trafod dyfodol y llwybr gyda swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Mynegwyd siom nad oes bwriad i wneud dim ar hyn o bryd gan CG, gan bwysleisio pa mor beryglus ydi'r ffordd fawr yn y fan yma. Nid dyma'r tro cyntaf o bell ffordd i'r Cyngor hwn godi'r mater gyda swyddogion llwybrau, ac felly mae'n siomedig na neilltuwyd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol ac nad oes addewid chwaith i chwilio am arian eleni na'r flwyddyn ariannol nesaf. Gobaith y Cyngor hwn oedd gweld llwybr hwylus ac addas yn cael ei greu i fynd o faes parcio Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APCE) i waelod y Bwlch. Crewyd llwybrau mewn ardaloedd eraill o'r Parc lle nad oedd peryglon na galw fel sydd yma. Nid pawb sy'n dymuno defnyddio bws Sherpa'r Wyddfa na thacsi chwaith i fynd i'r mynydd neu i'r Bwlch. Mynnwyd y bydd yn rhaid pwyso eto ar CG i ddatrys y broblem ac i chwilio am gymorth yn enwedig gan fod Llywodraeth Cymru yn annog pobl i gerdded.

***2. Cyrsiau Cynghorwyr:***
Bu EB, KMJ, NJ, LP, LlHP ar gwrs hyfforddi yn ystod y mis.
Adroddodd y Clerc iddo gysylltu a ULlC i holi pan na chynhelid mwy o gyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r ateb a gafwyd oedd nad oedd digon o alw a bod y cyrsiau Cymraeg yn aml ddim yn cael eu cynnal am nad oedd digon o enwau i'w cyfiawnhau o ran cost. Holwyd faint oedd ei angen a'r ateb oedd 3, ac y byddai modd trefnu unrhyw un o'r cyrsiau pe bai sicrwydd o 3 i'w fynychu. Awgrymodd y Clerc efallai mai cysylltu a chynghorau eraill oedd yr ateb a galw am gwrs cyrsiau penodol i ateb y galw.
Roedd Cyngor Cymuned Pistyll wedi cwyno'n ddiweddar am ddiffyg cyrsiau, a'r Clerc wedi anfon gair i son am yr hyn a gafodd gan ULlC.
***3. Gwaith Ffordd - National Grid a Morgan Sindall:***
Adroddwyd nad oedd pennaeth y gwaith o gwmni National Grid ar gael i ddod i gyfarfod heno. Cynigiwyd nifer o ddyddiadau eraill gan y cwmni, dyddiadau nad oedd yn gyfleus i'r Cyngor. Ynghyd a'r dyddiadau dywedodd y cwmni y byddai'n hoffi cynnal y cyfarfod yn Is-orsaf Pentir yn hytrach na Llanberis.

Gofynnwyd i'r Clerc holi'r cwmni am ddyddiadau eraill i gyfarfod y cwmni a chytunwyd i fynd i Bentir. Cynnig ac eilio: TT / HLJ. Anogwyd pawb i wneud yn siwr eu bod yn mynd i'r cyfarfod pan drefnir ef gan fod yn ymwybodol o gwynion rhai o'r trigolion.
***4. Cymdeithas Pysgota Seiont, Gwyrfai a Llyfni - chwyn Llyn Padarn:***
Cafwyd ateb oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cydnabod fod pryderon sylweddol ynglyn a'r planhigyn *Lagarosiphon major* ac adroddwyd ei fod yma ers rhai blynyddoedd, ond wedi cynyddu yn ddiweddar, Dywedwyd ei fod yn blanhigyn o ddeheudir Affrica, yn hynod ymledol ac wedi dod unai o ardd rhywun neu ar droed neu gwch. Mae CNC yn dal i ymchwilio i mewn i'r mater. Mae'n wybyddus mai fesul darnau yn torri'n rhydd y mae yn ymledu yn hytrach na drwy hadau ac mae yma ers 2016. Lleoliad arall ydi Llyn Myngul, Tal-y-llyn ym Meirionnydd. Rhan o'r pryder ydi y gallai'r planhigyn gystadlu am le ar lannau'r llyn yn erbyn y Dŵr-lyriad Nofiadwy (Luronium natans), ond does dim digon o wybodaeth eto i ddweud a allai'r planhigyn effeithio'r Torgoch. Dywedir y bydd angen ystyried hwn fel yr ystyrir y rhododendron yng nghoedwigoedd derw Eryri. Credir mai'r unig ffordd i'w waredu ydi trwy ei dynnu o'r dŵr. Does dim chwynladdwr addas. Mewn ateb i holi am effaith y cynnydd bychan yn nhymheredd y dŵr yn Afon Bala sy'n dod o'r cynllun hydro mae'n annhebygol fod hynny yn cael effaith ar y planhigyn, ac ychwanegwyd trwy fod cyflwr y llyn ac ansawdd y dŵr gryn dipyn yn well nag yr oedd rai blynyddoedd yn ôl. Cofir yn hir am effaith yr 'algae' yn 2009, ond mae lefelau maetholion fel ffosffad gryn dipyn yn is erbyn hyn a dywedir fod cyflwr y dŵr ar gyfer ymdrochi a nofio yn 'ardderchog'. Cafwyd ateb gan CG rheolwr y llyn yn dyfynnu yn bennaf o lythyr CNC. Yn ychwanegol dywed CNC y bydd yn ceisio darganfod i ba raddau y mae'r chwyn yn ymledu, trafod ac ystyried gyda CG sut i'w ddileu, ac os na fydd hynny yn llwyddianus, ystyried sut i'w gyfyngu a'i atal rhag mynd i safleoedd eraill. Mae bwriad hefyd i drafod efo CG sut i gyfathrebu a'r cyhoedd gan fod cymaint o ddiddordeb lleol ac ehangach yn y llyn.
Croesawyd y llythyr gan benderfynu cadw golwg ar unrhyw ddatblygiadau.



***5. Palmant ger Bron Eryri, Nantperis:***
Adroddwyd i'r Clerc siarad â pherchennog yr eiddo ac iddi ei sicrhau fod bwriad i farbio'r coed a thorri eu topiau yn fuan. Dywedodd hefyd ei bod wedi cael caniatad gan APCE i docio'r goeden yng nghefn y tŷ sydd â changhennau crin dros y Fynwent.

***6. Incwm Meysydd Parcio:***
Cafwyd ar ddeall mai cyfran o incwm un maes parcio oedd yn dod i'r Cyngor hwn oddi wrth CG. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â CG i ofyn am gyfraniadau o'r meysydd eraill sydd yn y plwy.
Cynnig ac eilio: Kj a KMJ.

**7 MATERION ERAILL:**

***1. Y Fynwent:***
Penderfynwyd creu pwyllgor i ystyried dyfodol y Fynwent wrth i'r safleoedd claddu brinhau. Yr aelodau fydd GE (Cadeirydd), IO, LP, HS, KMJ. Bydd y cyfarfod cyntaf yn Y Ganolfan am 7 ar nos Iau'r 25ain o Fai.

***2. Castell Dolbadarn:***
Bu cynydd sylweddol yn y sbwriel sy'n cael ei adael ym maes parcio'r Castell oddi ar ffordd A4086 ym Mhentre Castell. Yn ôl LP cafwyd ar ddeall mai Gwesty Victoria ydi perchennog y tir a phenderfynwyd anfon at Guto Parry un o gyfarwyddwyr y cwmni i ofyn a oes modd atal ceir a cherbydau cysgu dros nos rhag mynd i mewn i'r llecyn. Addawodd y Clerc ysgrifennu ato drannoeth gan fod lle i gredu fod y cyfarwyddwyr yn cyfarfod y noson honno.

***3. Polisiau newydd:***
Cyflwynwyd canllawiau polisi ar gyfer Bioamrywiaeth a Hyfforddi gan y Clerc, ac fe'u derbyniwyd er bod un aelod yn credu fod angen mwy o gig ar yr asgwrn. Dadl y Clerc oedd fod llawer o bolisiau cyffelyb gan eraill yn ddim ond geiriau gwag. Bydd lle i adolygu maes o law.
Cynnig ac eilio: IO / KJ.

**8 GOHEBIAETH:**

***1. APCE - Cronfa Cymunedau Eryri:***
Cylchlythyr yn nodi fod cronfa newydd wedi ei sefydlu **er** budd ardaloedd yn Eryri a'r bwriad ydi i'r arian gael ei wario ar seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, datgarboneiddio, a gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff ynghyd a datblygu cymunedol a'r iaith Gymraeg. Bydd y grantiau cyfalaf i rai fydd yn cyrraedd y meini prawf yn llwyddianus rhwng £5,000 ac £20,000

***2. APCE - Gweminar Aelodau Cynghorau Cymuned - Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol***
Mae'r Awdurdod yn trefnu Gweminar i hyd at ddau aelod o'r Cynghorau lleol i ddechrau trafod adolygiad Cynllun Datblygu Lleol 2016-2031. Bydd hwn yn adolygiad llawn o gymharu a'r un byr a gynhaliwyd yn 2019.
Nos Iau Mehefin yr 8fed am 7.30yh ydi dyddiad ac amser y cyfarfod ar Zoom gyda swyddogion Tîm Polisi'r Awdurdod

***3. GwyrddNi:***
Manylion am Gynulliad Dŵr a Thir Dyffryn Peris o dan faner GwyrddNi sydd i'w gynnal yn Ysgol Brynrefail, Llanrug rhwng 10.00 ac 13.00 ar Fehefin y 10fed.

***4. CG - Ardal Ni 2035 Bro Peris:***
Cyfarfod yn Y Ganolfan rhwng 4 a 6yp. Hwn fydd yr ail ddigwyddiad ar gyfer paratoi Fframwaith Adfywio newydd i Wynedd. Mae Bro Peris yn un o 13 o ardaloedd . Pwysleisiodd y Clerc fod hwn yn gyfarfod pwysig gan apelio ar i aelodau ei fynychu.

***5. Asiantaeth Swyddfa Brisio:***
Roedd y Clerc wedi llenwi'r ffurflen a anfonir yn achlysurol mewn perthynas a manylion rhent, prydles a pherchnogaeth.

**9 CYNLLUNIO a THRWYDDEDU:**

**CG - Cynllunio:**
**C23/0342/15/LL -** Tir oddi ar ffordd A4086, gyferbyn a mynedfa Llwyncoed, Cwm-y-glo - *Adeiladu mynedfa gerbydol a ar ffurf 'cloch' dros dro (am hyd at 12 mis) gyda llinellau gwyn a seilwaith cysylltiedig, i gefnogi cynllun adeiladu llinell drydan newydd Dinorwig - Pentir* - Dim sylw.

**CG - Trwyddedu:**
Cais gan gwmni **Becws Melyn Cyf** i Gyngor Gwynedd am drwydded i werthu alcohol mewn bwyty/caffi sydd i'w agor yn 41b Stryd Fawr, Llanberis. Mae'r cais am drwydded i werthu gwirodydd ag ati rhwng 12.00 a 22.00 bob dydd o'r wythnos, gyda thrwydded cerddoriaeth o 8.00 hyd 22.00.
Penderfynwyd yn unfrydol nad oedd gwrthwynebiad.

**10 LLWYBRAU / Y FYNWENT:**
Trefnwyd i edrych ar ddiogelwch cerrig y Fynwent pan fydd y panel yn cyfarfod cyn diwedd y mis.

**11 MATERION ARIANNOL:**

**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Ebrill, 2023**
**Cyfrif Cyfredol**: £44,219.28
**Cyfrif Cadw**: £66.88

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
202816 Eric Baylis [Glanhau Cysgodfannau - Ebrill, Paent a Phaentio] 185.00

202817 D Wyn Lewis [T Glaswellt Y Fynwent / Parc Bach / Fron-deg] 340.00
202818 Zurich Municipal [Yswiriant Blwyddyn] 1525.55
••• Treuliau Banc [Ebrill] 9.80

**CYFANSWM ... ... £2,060.35**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/03/2023 a 28/04/2023:**
04 Ebrill Codi carreg newydd SR / Ailosod carreg G, T a J Rbts 400.00

**CYFANSWM ... ... £400.00**
Cynnig ac eilio y materion ariannol misol: IH / LP

**12 ADRODDIAD ARIANNOL BLYNYDDOL:**
Cyflwynodd y Clerc fantolen ariannol y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dydd olaf o Fawrth. Roedd y papurau a ddosbarthwyd ar ebost cyn y cyfarfod yn cynnwys Derbyniadau, Gwariant, Cysoni'r Banc a Gwariant yn erbyn y Gyllideb. Roedd y gweddill yn £14,800.75, (gweler cysoni'r Banc ond gan nad oedd y siec am £4,000 heb ei hawlio (gweler eglurhad Cofnodion Mai 2021/8.1) ac un arall am £75 roedd y gweddill yn fwy mewn gwirionedd, y cyfanswm felly yn £18,875.77 gyda dwy siec gwerth £692.00 heb glirio.

Eleni eto bu gwario sylweddol ar adnoddau awyr agored i'r pentref, gyda'r pwyslais y tro yma ar blant. Gosodwyd offer i blant bach dan 5 yn lle'r hen drên goed, ynghyd a siglen ddwbl newydd i rai hŷn. Roedd y gost dros £24,000. Hefyd buddsoddwyd mewn goleuadau Nadolig newydd i'w rhoi ar bolion lampau stryd yn Llanberis, ychwanegwyd cysylltiadau ychwanegol ar 7 o bolion hefyd yn Llanberis ac fe adnewyddwyd goleuadau Nantperis. Diolchwyd i'r Clerc am ei gyflwyniad ac am ei ofal a'i drylwyredd arferol gyda'r cyllid.

Cytunwyd i'r Cadeirydd a'r Clerc arwyddo'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer yr Archwiliad Blynyddol.
Cynnig ac eilio: TT / KMJ

**13 PENODI ARCHWILIWR MEWNOL**
Penderfynwyd gofyn i Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i wneud yr Archwiliad Mewnol, fel yn y blynyddoedd blaenorol.
Cynnig ac eilio: HLJ / NJ

**14 CYFARFOD NESAF:**
Cyn penderfynu ar ddyddiad y cyfarfod nesaf diolchwyd i Dei Tomos am ei waith fel Clerc dros ugain mlynedd fwy neu lai o amser. Diolchodd yntau i'r aelodau am y Swper a drefnwyd iddo ac am y llun a gafodd yn anrheg, roedd wedi gwerthfawrogi'r swper yn Ty'n Llan a bydd yn gobeithio gwerthfawrogi'r llun o Gastell Dolbadarn am flynyddoedd i ddod. Bydd yn mynychu'r cyfarfod nesaf wrth benelin y Clerc newydd.
Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fercher y 10fed o Fehefin, 2023 am 7.00yh yn Y Ganolfan.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**
Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard
Clerc: Dei Tomos
Dyddiad: 10fed o Fehefin, 2023

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 | hefsj@aol.com

# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD 18FED EBRILL 2023

**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRUG 18FED EBRILL, 2023**

**DERBYN CROESO GAN Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod

**CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 21 MAWRTH 2023**

Darllenodd y Cadeirydd Gofnodion cyfarfod mis Mawrth 21, 2023. Cynigwyd ac eiliwyd fod y Cofnodion yn gywir. Pawb yn cytuno.

**DERBYN UNRHYW SYLWADAU YN CODI**

Parcio ar y llinellau melyn ger siop Y Spar, Llanrug. Heb gael dim ymateb gan Gyngor Gwynedd. Sawl un yn parcio ar y palmant ac yn rhwystro gweledd.

Adroddwyd fod coeden newydd wedi ei phrynu heddiw ar gyfer Pwll Moelyn yn lle'r un oedd wedi ei difrodi.

Angen paratoi'r placiau ar gyfer hyn ar gyfer gwahodd y teulu canol mis Mai wedi'r Cyfarfod Blynyddol. Cadeirydd am holi'r clerc sydd angen iddi hi wneud hyn i gynorthwyo'r Clerc.

Penderfynwyd: Derbyn y sylwadau.

**DERBYN ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD BERWYN PARRY JONES, AELOD DROS GWM Y GLO AR GYNGOR GWYNEDD**

**DERBYN ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN, AELOD DROS LANRUG AR GYNGOR GWYNEDD**

**DERBYN ADRODDIAD O'R PWYLLGOR BWYD A LLESIANT**

Y cynllun wedi colli rhai o'r rhestr oherwydd marwolaeth ond 4 o'r newydd wedi ymuno.

Ni chafwyd cyflenwad wythnos y Pasg, ond gan fod y Cyngor Cymuned wedi derbyn nwyddau o'r arian Grant llwyddwyd i fwydo pawb.

Tri aelod o'n pwyllgor yn cyfarfod Claire o Fairshare bore Mercher.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**DERBYN ADRODDIAD O BWYLLGOR Y FYNWENT**

Adroddwyd y canlynol.

Gwaith adeiladu waliau newydd a thrwsio pyst wrth ymyl mynediad i'r Fynwent wedi ei gwneud.

Paratoadau am Sul y Blodau wedi cynnwys casglu blodau plastig oedd wedi'u gwasgaru gan y tywydd. Casglwyd bag du llawn. Bydd rhaid ystyried rhoi sylw i'r mater o'r deunydd yma yn y fynwent.

Cafwyd cwyn trwy safle we'r Cyngor am y toriad gwair cyn y Pasg. Bydd ymateb i'r cwyn yn cynnwys cyfeiriad at drefn cwyno ffurfiol y Cyngor.

Bin llawn a sbwriel yn fynwent yr Eglwys. Byddwn yn holi am gynrychiolydd o'r eglwys fydd yn medru ymateb i'r broblem.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

a) **Rhif y cais: C23/0239/23/DT**

Dymchwel estyniad unllawr to fflat. Codi estyniad unllawr a deulawr. Bwlch Cottage, Lon Bwlch, Cwm Y Glo.

Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.

b) **Rhif y cais: C21/0564/23/LL**

Cais ar gyfer codi 3 uned breswyl fforddiadwy (dau dy a byngalo). Tir ger Tafarn Y Glyntwrog, Llanrug.

Penderfynwyd: Gwrthwynebu.

- Sylwadau'r Cyngor Cymuned 2021 yn parhau ac yn ddilys heno.
- Colli llecyn gwyrdd arall yn y gymuned. Sawl aelod o'r cyhoedd wedi mynegi eu pryder am hyn.
- Safle bws.
- Gorddatblygiad o'r darn tir.
- Diogelwch ffordd yn y rhan yma o'r pentref.















w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN 2AIL FAI 2023

**Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**
Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan Fudiadau Gwirfoddol. Ceisiadau i gyrraedd y clerc dim hwyrach na 2ail Hydref. Bydd angen cynnwys Mantolen Ariannol Gyfredol wedi ei ardystio gyda'r cais i sylw:
**Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Gwynedd. LL55 3LS**
**clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru**

**Cofnodion 7fed Fawrth**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

**Materion o'r Cofnodion**

**Cysgodfan Bws Brynrefail**
Nododd y clerc fod y gysgodfan bellach wedi ei chwblhau, ac mae'r defnyddwyr wedi eu plesio yn arw gyda'r ddarpariaeth.

**Mapiau Enwogion**
Mae'r mapiau wedi eu gyrru i gael eu hargraffu. Byddant yn barod yn fuan. Byddwn angen trefnu noson lansiad. Y clerc i gysylltu â Gareth Roberts.

**Hysbysfwrdd Rhiwlas a Brynrefail**
Bu i'r clerc ymweld â chynrychiolydd o'r Caban ym Mrynrefail I weld lle oedd lle gorau i allu rhoi hysbysfwrdd fel sydd ym mhob pentref arall. Mae safle ger y fainc i weld yn le addas, ac wedi clywed bellach nad oes gwrthwynebiad i hyn. Felly, penderfynwyd rhoi caniatâd i'r clerc i archebu

**Gohebiaeth a Materion Eraill**

**Hwb Newydd Tîm Tacluso**
Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn esbonio am y cynllun yma. Cynllun sydd wedi ei greu lle mae amserlen ar gael o bryd fydd y tîm yn ymweld â gwahanol ardaloedd. Gellir rhoi cais am waith drwy ddefnyddio'r ffurflen electroneg, unai trwy ymweld ar Borth "Timau Tacluso 'Ardal Ni' Tidying Teams neu trwy e-bostio cais I :tacluso@gwynedd.llyw .cymru

**Cynllunio**
Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:
***C22/1035/18/CR*** *- Erw Pwll y Glo, Pontrug -* Estyniad cefn ac ochor i dy annedd ynghyd ag addasiadau mewnol
***C23/0307/18/DT*** - Bwthyn Lôn Plas, Rhiwlas -Adeiladu Garej Newydd
***C23/0272/18/LL*** - Llys Gwynt, Seion - Cais i ddiwygio Amod ar gynllunio blaenorol ar gyfer adeiladu sied amaethyddol
***C23/0256/18/DT*** - Cefn Llan Bungalow - Estyniad un llawr i flaen ac ochr yr adeilad
***C23/0229/18/DT*** - 4 Tai Cae Rhos, Bethel - Codi estyniad cefn deulawr ynghyd a newidiadau cysylltiedig.
***C23/ 0294/18/LL*** - Tir gyferbyn a Tŷ Ni, Gallt y Foel - Tŷ Fforddiadwy Newydd

**Tir Dros Ffordd I Cremlyn, Bethel**
Bu i aelodau o'r Cyngor a'r clerc fod mewn cyfarfod ynglŷn â phosibilrwydd y bydd datblygiad yn dod ar y tir yma ym Methel. Mae yna arolwg ar anghenion tai yn yr ardal, a bydd noson agored yn y Neuadd, I bobl allu llenwi arolwg a rhoi eu barn, neu siarad gydag asiantaethau yno am dai.

**Llwybrau**

**Llwybr 95 Penisa'r-waun I Gae Corniog**.
Mae'r llwybr yma yn dod allan yn Gors, Brynrefail, ond nid oes arwyddion ar y llwybr wrth fynd heibio Pant yr Afon. Mae yno gae, a dim arwyddion pa ffordd i ddilyn heibio Cae Corniog. Bydd y clerc yn cysylltu â'r adran llwybrau yng Nghyngor Gwynedd I ofyn am arwyddion eu rhoi ar y llwybr.

**Giât Electroneg heibio Tŷ Mawr**
Nid yw'r giât yma byth wedi ei sortio. Rydym wedi dallt nad yw'r giât sydd wedi eu gosod yno ddim yn giât gyfreithlon ar y llwybr, felly, mae Cyngor Gwynedd angen gweithredu i dynnu'r giât oddi yno. Y clerc i yrru llythyr eto.

**O Gwmpas y Bwrdd**

**Cais Gwynfryn**
Bu i'r perchnogion fod yn llwyddiannus yn eu hapêl yn erbyn penderfyniad Cyngor Gwynedd. Yn amlwg, mae hyn yn siom fawr, ac nid yw'r broblem fod y llwybr wedi ei farcio yn anghywir ar y map byth wedi ffrwythloni. Mae'r Cynghorydd Elwyn Jones gyda'r ffurflenni, ac am gael tystiolaeth o ddefnydd o'r llwybr cywir er mwyn i'r Cyngor Cymuned eu gyrru fel ein bod yn cael sicrhad fod y llwybr yn cael ei warchod.

**Casglu Sbwriel**
Sawl ardal heb gael eu sbwriel ac ailgylchu heb eu casglu'r wythnos diwethaf. Nid oedd dim cydweithrediad o'r Cyngor Sir, I nodi rheswm na phryd y buasai'r gwasanaeth yn cael ei gynnal.

**Marchlyn**
Sawl cwyn wedi dod i law ynglŷn ag ysbwriel yn yr ardal yma. Mae sawl un yn ymweld â'r ardal yma, cadw eu ceir a cherdded, ond nid oes yna fath o fin ysbwriel yno. Mae'r ysbwriel i gyd yn cael eu taflyd ar ochor y lôn a chael ei adael, nes bod llanast yno. Llythyr I Wynedd gyda chais am fin.

**Lôn Garet, Dinorwig**
Mae Motorhomes yn parcio dros nos yn ben Lôn Garet, yn y man lle troi er mwyn dod yn ôl i lawr. Os byddai ambiwlans neu frigâd dân angen gwneud hyn ar frys, byddai yn amhosib. Mae yn rhaid cael arwyddion gwell o lawer yn yr ardal yma. Mae hyn yn digwydd mwy aml mewn llefydd er mwyn osgoi talu am barcio mewn parciau dros nos. Y clerc i yrru llythyr I Gyngor Gwynedd yn gofyn am arwyddion yng ngwaelod y lôn i atal neb i fynd i fyny yno. Hefyd, mae'r tir neu ardal yma yn y top yn perthyn I First Hydro. Cysylltu â nhw eto i ofyn am arwyddion 'dim aros'.

**Allt Ddu**,
Motorhomes yn parcio dros nos o hyd, ac yn taflu eu carthion yno. Cysylltu eto gyda Chyngor Gwynedd I ofyn beth sydd yn cael ei wneud ynglŷn â'r broblem.

**Bryn Madog, Brynrefail**
Mae yn edrych fel bod yna ddatblygiad Glampio yn cael ei wneud yma. Oes cais cynllunio?







# Garddio

## Gorffennaf

Er i fis Mai gychwyn yn oer, mi wellodd pethau at ddiwedd y mis a dechrau Mehefin. Erbyn hyn mae'r casgenni dal dŵr glaw wedi gwagio'n sylweddol. Er gymaint rydw i'n hoffi'r tywydd poeth, fel garddwr mi ydw i bellach yn dechrau gobeithio gwneith hi fwrw, er lles fy mlodau a llysiau a'r lawnt! Mae popeth i'w gweld yn dal i dyfu, er bod rhai o flodau'r gwanwyn megis y tiwlipau a'r briallu wedi sychu a mynd braidd yn llipa. Mi ydw i wedi mwynhau cael eistedd yn yr heulwen, gan ei bod yn rhy boeth i fynd i'r tŷ gwydr nac i lygaid yr haul a gwneud beth ddylai pob garddwr ei wneud o bryd i'w gilydd sef sylwi ar harddwch ein gerddi a'i fwynhau. Mae'r ellesgen (*iris*) biws tywyll (bron yn ddu), gefais i gan ffrindiau o'r Almaen, rai blynyddoedd yn ôl, wedi mwynhau'r tywydd poeth a dydy'r gwynt ddim wedi bod yn ddigon cryf i'w malu eleni!



Bu rhai o'r cyflwynwyr ar y rhaglenni garddio'n cyfeirio at y '*Chelsea chop*', h.y. yr arfer o dorri rhai planhigion yn ôl er mwyn cael gwell sioe o flodau ymhellach ymlaen.  Mi ydw i'n hoffi cadw'r planhigion sydd wedi blodeuo i barhau i edrych yn dda trwy dorri'r hen flodau e.e. mynawyd y bugail (*geranium)* bysedd y blaidd (*lupins*) a'r pabi dwyreiniol (*oriental poppies*), gan groesi bysedd y bydd mwy o flodau ymhellach ymlaen yn yr haf. Joban fach handi i'w gwneud yn gynnar yn y bore neu gyda'r nos pan nad yw'r haul yn rhy gryf.

Os ydach chi'n dyfrio gwnewch joban iawn ohoni! Mae'n well socian y pridd go iawn unwaith neu dwywaith yr wythnos na thywallt rhyw gnegwarth arnyn nhw bob dydd. Gwnewch hynny yn gynnar yn y bore neu wrth i'r haul fynd i lawr, fel nad yw'r dŵr yn anweddu ar ôl eich gwaith caled.

Mae socsan dda lawer gwell i'r planhigion gan fod y gwreiddiau'n gorfod treiddio'n ddyfnach i'r pridd i ganfod dŵr.

Cadwch lygaid ar unrhyw newydd ddyfodiaid hefyd a sicrhewch eu bod yn cael eu dyfrio fel bo'r angen i roi cyfle iddynt sefydlu eu hunain i'r blynyddoedd i ddod. Mae yma sawl casgen ddŵr, sy'n well i'r amgylchedd (ac yn arbed arian os oes ganddoch fesurydd dŵr) ac mi fyddai'n trio eu defnyddio nhw yn hytrach na'r beipan ddŵr. Os eith dŵr yn brin yn ystod yr haf mi wnaiff dŵr golchi llestri yn iawn (gyda'r bonws o'r sebon yn lladd unrhyw fân bryfetach megis y pryf gwyn a gwyrdd). Un peth rydw i am drio eleni yw gosod cnu gwlân o dan fy ffa dringo i weld os gadwith o'r malwod a'r gwlithod draw.

**Tasgau**

1. Tacluswch farf yr hen ŵr [*clematis*] ac unrhyw blanhigion eraill sy'n dringo a chlymu fel bo'r angen.
2. Gallwch fentro symud planhigion fu'n tyfu'n y tŷ a'u rhoi allan, ond cadwch lygaid allan am y malwod a'r gwlithod.
3. Cofiwch fod angen dyfrio'r planhigion newydd, a photiau neu gynwysyddion sydd yn sychu allan yn gyflymach na'r borderi yn enwedig potiau llai. Mae bwyd hylifol yn llesol i blanhigion sydd mewn potiau (efo rywbeth o danyn nhw i ddal dŵr o dan bob pot) fel nad ydych yn gwastraffu dŵr. Cofiwch am y bywyd gwyllt drwy lanhau'r bath adar a chadwch lygaid ar lefel y dŵr. Da fyddai gosod dysglau neu soseri isel efo dŵr ynddynt i'r adar a'r creaduriaid gwyllt sy'n ymweld â'r ardd.
4. Ydach chi'n hoffi gwsberis? Os oeddech chi'n byw ar ddechrau'r 19eg ganrif byddai wedi bod yn anodd eu hosgoi. Erbyn 1831 enwyd dros 700 ohonynt, ac roedd clybiau gwsberis yn cynnal cystadlaethau i dyfu'r gwsberan fwyaf! Maent yn dal yr un mor flasus hyd heddiw. Gallwch eu bwyta'n wyrdd yn gynnar yn y tymor mewn *puree* i fynd efo porc neu wedi eu cynnwys mewn crymbl. Gall y rhai cochlyd hwyrach gael eu rhoi mewn salad ffrwythau neu i wneud *chutney*.
5. Mae wedi bod yn hynod o boeth yn y tŷ gwydr, er bod y drws a'r ffenest ar agor a mod i'n dyfrio'r llawr efo dŵr oer. Mae chwistrellu dŵr oer yn cynyddu'r lleithder (sy'n dda i'r ciwcymbrau) ac yn ei dro yn helpu cadw pla fel y gwiddon pry cop (*spider mites*) draw, gan eu bod nhw'n hoffi amodau sych. Daliwch ati i dynnu'r lladron oddi ar y tomatos a chofiwch ddyfrio'n gyson neu mi all y tomatos hollti neu ddatblygu '*blossom end rot*'. Bwydwch nhw efo gwrtaith hylifol pwrpasol pan fo'r ffrwythau cyntaf wedi ffurfio, hyd nes bo'r swp (*truss*) olaf wedi ffurfio gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y cynhwysydd gwrtaith. Mae gen i saith gwahanol fath o domatos acw eleni - ges i '*kit*' fel anrheg Nadolig! Dwi wedi rhannu efo ffrindiau, teulu a chyd-weithwyr ac mae'r rhai dros ben wedi eu plannu tu allan. Cewch wybod ymhellach ymlaen sut aeth pethau…
6. Torrwch y corbwmpen [*courgette*] yn ifanc, maent yn fwy blasus a chewch gnwd gwell. Cofiwch eu bwydo bob pythefnos efo gwrtaith hylifol neu wrtaith tomato, unwaith mae'r ffrwythau'n dechrau ymddangos.
7. Daliwch ati i gasglu eich pys pêr, i harddu a phersawru'r tŷ. Bydd hefyd yn annog y planhigion i ffurfio mwy o flodau. Planhigyn blwyddol ydy o, felly os yw'n cynhyrchu hadau mae'n arwydd i'r planhigyn stopio blodeuo. Torrwch y codau efo siswrn neu *secateurs* a chofiwch ddyfrio gwaelod y planhigion efo gwrtaith bwydo tomato hylifol *potash* uchel.
8. Astudiwch eich catalog er mwyn archebu bylbiau at y gwanwyn nesaf - joban i'w gwneud wrth eistedd yn yr haul yn mwynhau eich gardd efallai?
9. Tynnwch bennau marw'r rhosod yn gyson. Eto, mae'n cadw'r planhigyn i edrach yn daclus ac yn sicrhau mwy o flodau. Gallwch adael ambell un i ddatblygu'n egroes (*hips*) i'r adar gael gwledda.
10. Dyma amser da i blannu planhigion dwy flynyddol (*biennials*) megis bysedd y cŵn, nad af i'n angof (*forget me nots*), *Sweet William*, *honesty* neu blodau'r hwyr (*evening primrose)*. Mae'r gwenyn wrth eu bodd efo'r bysedd cŵn a dwi'n eu clywed nhw'n brysur o'r ystafell wely o ben bore hyd at ddiwedd y prynhawn. Wrth fy modd, un o synau hardd yr haf. Maent yn hynod o hawdd i'w tyfu jest eu hau mewn compost graeanog ac mi ddylen nhw egino o fewn tua 10 diwrnod. Symud nhw i gelloedd unigol ac erbyn mis Medi gallwch eu plannu ym mha le bynnag hoffech chi iddyn nhw flodeuo. Rhydd hyn amser iddynt sefydlu gwreiddiau cyn y gaeaf a byddan nhw'n barod i dyfu fflat owt yn y gwanwyn.





11. Cofiwch gynaeafu eich llysiau fel maen nhw'n barod. Mae sawl un yn well o'u bwyta pan ydynt yn ifanc a melys na'u gadael i dyfu'n anferthol, gwydn a di-flas. Os na allwch chi eu bwyta nhw i gyd beth am eu rhannu efo'r teulu, ffrindiau a'r cymdogion. Os oes dal rhai ar ôl rhowch nhw yn y rhewgell i fwynhau blasau'r haf yn oerni gerwin y gaeaf.

**HELP!**



Tydi cael cath a gardd ddim yn bethau sy'n cyd-weddu ar adegau, gan eu bod yn hoffi tyrchu i wneud be mae'n rhaid i gath ei wneud a chwalu beth bynnag blannwyd yno. Mae modd eu cadw nhw draw, ac os eith yr un acw dros y rhwyd yma mae'n mynd i gael enw newydd - 'Houdini'!

**Rhosyn Mynydd**

# Ar ben arall i’r lein

Dyma ni fis ble does dim i’w adrodd cyn belled a mae pysgota’r dyfroedd yn y cwestiwn; dim dŵr, eisiau glaw, ond fodd bynnag tydi’r tywydd wedi bod yn fendigedig. Mae bron a gwneud i rhywun anghofio’n gyfan gwbl am bysgota yn tydi.




Mae hyd yn oed Llyn y Dywarchen wedi mynd i gysgu, ac rwy’n cael digon o gwynion fod aml i badell yn llwglyd am frithyll drwy’r fro!

Yr unig newydd calonogol yw fod un o aelodau’r gymdeithas, Adam Burton o Gaernarfon, wedi ei benodi yn gapten tîm Pysgota Plu Cymru am 2023. Llongyfarchiadau Adam!

Wrth droi at y tywydd tramorol sydd wedi dod o gwmpas y lle, does dim pysgota’n bosib, ond mae digon yn digwydd o gwmpas ein dyfroedd. Ar Llyn Padarn mae’r ffocws ar y foment, fel y gallwch ddychmygu. Rwyf wedi cyfeirio at y broblem o’r chwyn-dyfiant o’r blaen, ond rŵan mae allan o bob rheolaeth a neb yn malio dim. Mae’r llyn wedi ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a chyda dynodiad o’r fath mae cyfrifoldebau yn disgyn ar ein awdurdodau i weithredu ar unrhyw fater sy’n cael, neu yn debyg o gael, effaith niweidiol ar ei ddyfroedd. Yn anffodus mae hyn i gyd yn cael ei anwybyddu.

‘Rwyf wedi paratoi rhyw fraslyn yn ymwneud â’r broblem ddiweddaraf :-

Llyn Padarn

Mae Llyn Padarn yn un o berlau cenedlaethol Cymru, i gydnabod hyn mae wedi ei ddynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae’r dynodiad yma yn rhestru factorau holl bwysig i’w gwarchod e.e - gwahanol fathau o lysdyfiant brodorol a’r pysgodyn prin y torgoch.

Mae’r dynodiad yn rhoi pwyslais ar warchod y torgoch, ac rydym fel cymdeithas leol yn glynu at y rheolau yma. Dyma mae’r dynodiad yn ddweud:

*Tarfu ar ymyl y llyn: Gellir niweidio ymyl y llyn a’r llystyfiant sydd yno – gan gynnwys planhigion dyfrol neu rai sydd dan y dŵr – trwy darfu arnynt. Dyma rai pethau a all darfu arnynt: gwaith yn ymwneud ag amddiffyn rhag llifogydd yn Afon Seiont, canŵ-wyr sy’n dod at y llyn efo trelars, a charthu pyllau. Mae ymyl y llyn yn llecyn silio pwysig i bysgod, ac mae hefyd yn bwysig i blanhigion dyfrol fel llyriad-y-dŵr arnofiol, sy’n brin drwy’r wlad.*

Cyfrifoldeb perchenogion y llyn ar rhan-ddalwyr yw gwarchod a phlismona hyn. Rhai sydd â chyfrifoldeb yn yn y maes yma yw Cyngor Gwynedd, Cymdeithas Bysgota Seiont Gwyrfai a Llyfni, Stâd Glynllifon, Rheilffordd Llyn Padarn a rhyw un neu ddau o berchnogion eraill. Mae Dŵr Cymru a’i arllwysiadau o waith carthffos Llanberis hefyd yn chwarae rhan bwysig yng nglendid y dyfroedd.

Dyma oedd gweledigaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn y dynodiad, mae’r corff yma nawr yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru:

*Sut olwg fydden ni’n dymuno ei weld ar Lyn Padarn? Dylai Llyn Padarn fod yn llyn glân heb unrhyw lygredd a dim ond ychydig neu gyfanswm cymedrol o faetholion ddylai fod yn bresennol. Dylai’r llyn gynnal poblogaeth iach o dorgoch sydd o dras frodorol ac fe ddylai’r afon sy’n llifo allan o’r llyn barhau i gynnig llecynnau silio ardderchog ar gyfer siwin ac eogiaid. Dylai niferoedd da o blanhigion llyriad y dŵr arnofiol fod yn bresennol a dylent fod yn tyfu’n llewyrchus. Bydd gwair merllyn bach yn bresennol hefyd. Bydd dyfrgwn yn bwydo ar y pysgod yn y llyn ac fe fydd adar dŵr i’w gweld ar y llyn ac ar yr afon sy’n llifo allan ohono. Dylai’r nodwedd ddaearegol fod yn weladwy ac yn hygyrch, fel y gall gael ei hastudio a’i hymchwilio ymhellach. Felly, drwy gynnal maint a didoredd presennol y brigiad gellir sicrhau y bydd y creigiau ar safle Llyn Padarn yn parhau i ddarparu lleoliad allweddol ar gyfer ymchwil ddaearegol. Dylai’r berthynas rhwng creigiau Cambriaidd y Gwregys Llechfaen a’r creigiau folcanig hynafol Arfonaidd Cyn-Gambriaidd barhau i fod yn amlwg hefyd.*

Yn anffodus dros y blynyddoedd nid yw’r prif berchnogion tirol yn ogystal â’r corff sydd i fod i sicrhau fod y safle yn cael ei warchod yn cadw at eu cyfrifoldebau, ac mae digwyddiadau 1992 a 2009 yn dystiolaeth o hyn.

Yn anffodus mae problemau ar dro unwaith eto drwy fod safon dyfrol y llyn yn warthus, gyda thyfiant o chwyn ymledol sydd ddim yn frodorol yn lledaenu dros y dyfroedd. Rydym fel cymdeithas yn barhaus yn tynnu sylw’r awdurdodau at hyn, ond mae eu sylwdau yn syfrdanu pawb, mae CNC o’r farn fod popeth yn iawn, gan mai tyfiant naturiol yw. Mae’n amlwg i bawb lleol nad oes ond un mater ar fryd Cyngor Gwynedd, a defnydd o’r llyn yw hyn, waeth be fydd y canlyniadau.

Nid oes angen ymhelaethu ar beth sy’n mynd ymlaen, ond dyma tipyn a ffeithiau at eich sylw:

Dydd Gwener 26ain Mai 2023, fe gynhaliwyd arolwg o’r llyn gan aelodau o’r gymdeithas bysgota ar ymlediad y chwyn, sef *curly waterweed – Lagarosiphon Major.* Nid yw be a ddarganfyddwyd yn argoeli yn dda am ddyfodol y lle fel safle gwyddonol arbennig – dyma i chwi fraslun o luniau o’r chwyn a’r lleoliadau yn y llyn ble mae wedi ymledu.

Mi wnâi adael i chwi bendroni a chysidro a oes dyfodol i Lyn Padarn fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, neu ein bod i gyd yn






anwybyddu beth sy’n cael ei ganiatau er lles twristiaeth a chwaraeon dŵr.

Pryderon Cymdeithas Pysgotwyr Seiont Gwyrfai a Llyfni sy’n berchnogion rhan helaeth o hawliau pysgota’r llyn, yw ein bod yn cael ein amddifadu o unrhyw benderfyniad sy’n ymwneud â safon dyfrol y llyn. Mae Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn diystyru’r problemau. Beth fydd dyfodol y torgoch? Padarn yw un o dri lleoliad yng Nghymru ble mae’r pysgodyn prin yma yn ymgartrefu, a mae’n syndod sut y mae wedi goroesi drwy yr holl broblemau sydd wedi effeithio ar ei gartref yn Llanberis. Y cyntaf oedd adeiladu gorsaf gynhyrchu trydan Dinorwig, yna yn 1992 a 2009 cafwyd llygredd carthffos yn achosi tyfiant o algi gwyrdd a gwyrddlas.

Mae dynodiad o Safle Gwyddonol Arbennig yn pwysleiso fod y torgoch a thyfiant brodorol y llyn i’w warchod, dyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru yw plismona hyn. Mae’r corff yma yn anwybyddu rheolau gwladol ei hunan. Buasai rhywun yn meddwl y byddai troi at y llywodraeth yng Nghaerdydd yn cywiro sefyllfa warthus fel hyn, ond na, anwybyddu’r broblem maent hwythau hefyd.



**Dyma’r dyfodol inni oll yn ôl pob golwg –trist iawn’.**

Y diweddaraf i ni glywed oedd bod y corff *Fish Legal* wedi derbyn sylwadau gan Gyngor Gwynedd yn dweud fod ganddynt bryderon ynglŷn â’r tyfiant, ond yn ôl ateb y Cyngor cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw hyn.

Yndi mae rhywun yn cael y teimlad ein bod yn mynd rownd a rownd mewn cylch di-ddiwedd ac yn y diwedd yn mynd i unlle.

**Huw Price Hughes**

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol, Bro Eco'r Wyddfa.
chwilota.wordpress.com

# Pont Rug a'r Felin Wen



Pont Rug

Diddorol oedd darllen sylwadau Hugh Hughes yn ei golofn 'Ar ben arall y lein' yn rhifyn Mehefin, a'r ffaith fod cyfyngiad ar bwysau cerbydau sy'n croesi'r Bont Rug bellach. Ond nid peth anghyffredin yw gorfod gwella ansawdd pontydd i gadw i fyny a gwahanol ddatblygiadau ym mhriffyrdd a thrafnidiaeth gynyddol ar hyd y canrifoedd. Dyna fu hanes y Bont Rug hefyd, er nad oes sicrwydd pendant ers pryd mae pont yn bodoli yma, a hynny oherwydd diffyg cofnodion sy'n cyfeirio ati. Yn y dyddiau cynnar, ganrifoedd yn ôl, doedd dim corff swyddogol yn gyfrifol am adeiladu na chynnal a chadw pontydd, ac y mae hynny'n rhannol gyfrifol am ddiffyg cofnodion 'swyddogol' yn ymwneud a hwy. Trigolion y trefgorddau cynnar a'r plwyfolion diweddarach oedd yn gofalu fod lle addas i groesi unrhyw afon o fewn eu dalgylch a oedd yn peri trafferthion i'w chroesi. Rhyd oedd y lle hwylusaf fel arfer i groesi afon, ac y mae enwau'n parhau i gofnodi lle bu rhydau ond lle mae bellach bontydd. Does wybod a fu rhyd yn ardal Pont Rug, ond oherwydd fod dyffryn afon Saint yn culhau yn yr ardal hon, mae'n eithaf tebyg fod pont yma yn gynnar iawn.

Ym 1530 y deddfwyd mai cyfrifoldeb yr Ustusiaid lleol oedd sicrhau fod pontydd yn cael eu hadeiadu neu eu trwsio, ac mae hynny'n egluro pam na cheir prin unrhyw gyfeiriadau na chofnodion swyddogol cyn y dyddiad hwn. O fewn llai na chwarter canrif i osod y cyfrifoldeb am bontydd ar y Llys Chwarter, daw'r cyfeiriad cyntaf at y Bont Rug. Mae'n ddiddorol hefyd fod y Llys Chwarter yn parhau i ddefnyddio enw'r hen drefgordd – Y Rug, ond hefyd yn defnyddio enwau'r plwyfi neu y llannau. Yn 1553 rhoes y Llys Chwarter orchymyn i drigolion Rug, Deiniolen (sef plwyf Llanddeiniolen) a Llanfair (sef plwyf Llanfairisgaer) i drwsio'r bont. Roedd plwyf Llanfairisgaer bryd hynny yn ymestyn ar draws i gyfeiriad Caeathro, a dyna pam, mae'n debyg yr oedd trigolion y plwyf hwnnw hefyd yn cael eu gwysio i roi cymorth i'r ddau blwyf arall i gynnal y bont. Yr oedd stad Plas Llanfair hefyd yn berchen tir yn yr ardal, a cheir cyfeiriadau at y bont yng nghofnodion y stad honno, sef casgliad Llanfair a Brynodol sydd ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mewn gwahanol ddogfennau yn y casgliad hwnnw mae cyfeiriadau yn Nhachwedd 1557 a Gorffennaf 1558 at dir ger *'y pont Ruke'* sy'n croesi '*avon y seynt'*.

Does wybod beth yn union oedd y gwaith trwsio oedd yn angenrheidiol yn 1553, a rhaid disgwyl am dros ddau can mlynedd i gael cofnod ysgrifenedig arall am y bont, oherwydd erbyn 1779 mae'n amlwg fod problemau digon dyrys ynglŷn â hi. Ym mis Med y flwyddyn honno rhoddwyd cytundeb i seiri meini o Gaernarfon o'r enw John Hughes a Lewis Evans i'w gwella oherwydd *"it is difficult and inconvenient to pass with carts and other carriages on account of the uncommon height of the summit."* Roedd y gwaith yn werth £27 i'r ddau o Gaernarfon (tua £2,000 heddiw). Yn rhan o'r cytundeb roedd angen *"pile up and raise the road at each end of the bridge, and to raise and alter the battlements to a proper and sufficient height."* Does dim eglurhad ynglŷn â'r hyn oedd *"sufficient height".*

Tybed pa mor addas fu'r gwaith a wnaethpwyd, oherwydd mewn llai na hanner can mlynedd bu'n rhaid trwsio'r bont eto yn 1827. Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach ac yr oedd adeiladu'r rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis yn golygu fod angen addasu'r bont unwaith yn rhagor, a'i hymestyn ar ochr Llanrug er mwyn gallu croesi dros y rheilffordd hefyd. Digwyddodd y gwaith hwn rhwng 1862 a 1869 pan agorodd y rheilffordd yn swyddogol. Dyma'r bont fel y mae heddiw.

Mae un digwyddiad arall, cynharach na'r cofnodion ysgrifenedig cyntaf, sy'n golygu y gallai hynny fod wedi effeithio ar y bont hefyd. Yn 1475 cafodd teulu bonheddig Plas Llanfair, Llanfairisgaer, ganiatad i adeiladu melin islaw'r bont. Mae'r caniatad yn dyddio i fis Rhagfyr y flwyddyn honno, ac yn cyfeirio at yr adeilad newydd fel *'y velyn wenn.'* Ym mis Awst y flwyddyn ddilynol rhoddwyd caniatad pellach i agor ffos i gario dŵr i'r felin newydd *'from the bank of the river Saynte.'* Mae'r ffos melin honno yn parhau i'w gweld heddiw, ac yn cychwyn o'r llyn cronni gafodd ei greu yn union o dan y bont. Ac er mwyn creu y llyn cronni bu'n rhaid adeiladu cryw cerrig ar draws yr afon, a hynny'n golygu fod lefel y dŵr o dan y bont yn codi. Tybed felly a oedd y newid hwn yn lefel dŵr yr afon o dan y bont wedi effeithio ar y sylfeini, ac mai dyna arweiniodd at y gwaith trwsio wedi i ddeddf 1530 ddod i fodolaeth?



Ffos y Felin Wen

Ni fu'r felin newydd heb ei thrafferthion chwaith, oherwydd ym mis Awst 1756 dioddefwyd llifogydd eithafol, a sgubwyd y Felin Wen gyda'r dyfroedd. Costiodd bum punt, tri ar ddeg o sylltau a naw ceiniog i'w hail-adeiladu, sef tua £500 yn arian heddiw. Os oedd llifogydd difrifol Awst 1756 yn ddigon i gario'r felin gyda'r dyfroedd, mae posibilrwydd fod y bont hefyd wedi dioddef niwed. Efallai mai hynny a arweiniodd yn y pen draw at y gorchymyn i'w thrwsio yn 1779, a rhoi cyflog pur dda i'r seiri maen o Gaernarfon.

Mae'r *"ucommon height of the summit"* wedi ei ddileu ers yr estyniad i gario'r ffordd dros y rheilffordd, ond mae culni'r bont yn parhau i greu trafferthion, yn enwedig ar y tro tynn o ochr Caernarfon. Tybed a fydd gwelliannau pellach pan gaiff y llwybr troed/beic ei gario dros yr afon?

**Milwr Coll**

Ni ddaeth unrhyw wybodaeth bellach am John Lloyd Hughes, Brongraig, Llanberis, a fudodd i'r America ac a ymunodd a'u byddin i ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ond a fu farw yn Ffrainc cyn cyrraedd maes y gâd. Ar gost yr Unol Daleithiau daethpwyd a'i gorff yn ôl i Gymru ac fe'i claddwyd ym mynwent Caeathro. Byddai'n ddiddorol cael gwybod mwy o'i hanes, a phwy oedd ei deulu yn Llanberis a'r cysylltiad â Chaeathro.

Os oes gennych unrhyw ymholid am agwedd o hanes y fro cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug; ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

## Cornel Ddarllen

Diolch i Eirian James, siop Palas Print, am ei sylwadau am lyfrau poblogaidd mis Mai.


"Mi fues i'n ddigon ffodus i fod yn bresennol yn lansiad Griffith Davies gan Haydn Edwards yn y Groeslon ym mis Mai, ac roedd hi'n noson ddifyr tu hwnt. Fel Angharad Tomos, oedd yn rhan o'r noson, faswn i byth wedi meddwl codi a darllen llyfr am '*actiwari*', ond mae hanes Griffith Davies yn ddifyr tu hwnt, ac yn llawer mwy 'na dathliad o fywyd dyn aeth i Lundain am ei fod yn fathemategydd o fri. Mae'n gofnod o gyfnod cynnar y cynnydd yn y diwydiant llechi yn yr ardal, ac yn ddarlun o ddyn oedd hefyd yn ymgyrchydd dros hawliau pobl gyffredin ar hyd ei oes.


Roedd yn fraint hefyd croesawu Noel Thomas, a'i ferch Sian Thomas i'r ardd i siarad am y gyfrol Llythyr Noel. Er bo'r llyfr yn ymdrin â'r anghyfiawnder ofnadwy a brofodd Noel wrth gael ei gyhuddo a'i garcharu ar gam, a'r frwydr sy'n dal i barhau hyd heddiw, mae hefyd yn cynnig portread o ddyn a chymuned, a sut mae pethau wedi newid dros y degawdau.


Ro'n i'n falch iawn o groesawu Patrick McGuinness yn ôl i'r ardd i ddarllen o'i gyfrol ddiweddaraf o gerddi, a cherddi teimladwy a myfyrgar iawn ydyn nhw hefyd.

Rhestr ddifyr eto mis yma, yn gyfuniad o nofelau Cymraeg a hanes Cymru, gwleidyddiaeth, taith a barddoniaeth. Mwynhewch!"

1. *Griffith Davies,* Haydn E Edwards
2. *Llythyr Noel,* Noel Thomas
3. *Charles and the Welsh Revolt*, Arwel Vittle
4. *Salem,* Haf Llewelyn
5. *20 Radical Steps to Welsh Independence,* Jim Wingate a Jen Llywelyn
6. *All the Wide Border,* Mike Parker
7. *Blood Feather,* Patrick McGuinness
8. *Sêr y nos yn Gwenu,* Casia Wiliam
9. *Llyfr y Flwyddyn,* Mari Emlyn
10. *Cymru Fydd,* William Owen Roberts






# Noson Wobrwyo Clwb Pêl-droed Llanberis



Dion Owen



Jonathan Cyster



Kurt Hellfeld



Craig Green



Ifan Mansoor

Cynhaliwyd Noson Gwobrwyo Clwb Pêl Droed Llanberis nos Sadwrn, Mai 20. Mae Llanberis yn chwarae yn Uwch Adran y Gorllewin, Cynghrair Arfordir Gogledd Cymru, pedwerydd gris y pyramid cenedlaethol. Cafwyd tymor llwyddiannus iawn gan orffen yn drydydd yn y Gynghrair, a chael rhediad da mewn mwy nag un o'r cystadlaethau cwpan, yn cynnwys yr ymweliad â Chlwb Dreigiau Baglan ym Mhumed Rownd Tlws FA Cymru.

Ond er y llwyddiant roedd rhywfaint o siom ymhlith y rheolwyr na fyddai'r tîm wedi gorffen yn uwch fyth yn y Gynghrair o gofio safon y chwarae dros y tymor.

Roedd ail dîm y Clwb yn cystadlu yng Nghynghrair Ail Dimau Arfordir Gogledd Cymru.

Cyflwynwyd y gwobrau canlynol:

**Y Tîm Cyntaf:**
Dewis y Chwaraewyr: Craig Green
Dewis y Cefnogwyr: Kurt Hellfeld
Prif Sgoriwr: Ifan Mansoor
Chwaraewr Ifanc: Sean Mcgrath
Dewis y Rheolwyr: Dion Owen

**Yr Ail Dîm:**
Dewis y Chwaraewyr: Aled Pritchard
Prif Sgoriwr: Cian Pleming
Dewis y Rheolwyr: Jonathan Cyster

Penderfynwyd ail enwi Tlws Prif Sgoriwr y Tîm Cyntaf yn 'Dlws Coffa Ken Jones' er cof am Ken, a fu farw ym mis Tachwedd 2021 ac a roddodd flynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Clwb. Roedd yn addas iawn mai enillydd y Tlws eleni oedd ei ŵyr, Ifan Mansoor.

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau mis Gorffennaf:
Gorffennaf 2, 9:30yb: Boreol Weddi
Gorffennaf 9, 9:30yb: Cymun Bendigaid; 4yh: Gwasanaeth Teulu
Gorffennaf 16, 9:30yb: Boreol Weddi
Gorffennaf 23, 9:30yh: Cymun Bendigaid
Gorffennaf 30, 9:30yb: Cymun Bendigaid; 5yh: Gwasanaeth unedig eglwysi Bro Eryri

Os bydd y tywydd yn ffafriol cynhelir y gwasanaeth ar lan Llyn Padarn; ond os ddim, Eglwys Sant Padarn.

Hefyd cynhelir gwasanaeth un ai'r Cymun Bendigaid neu'r Foreol Weddi bob dydd Mawrth am 11.00yb.

CLWB GOLFF TREF FRENHINOL
CAERNARFON
GOLF CLUB
Sef. 1909 Est.
ROYAL TOWN

Merched, ffansi dysgu chwarae golff?

Noson flasu rhad ac am ddim, yn cynnwys gwers mewn grŵp a gwydriad o broseco

**Nos Iau, Gorffennaf 20fed am 6yh**

Merched yn unig . Rhaid bwcio ymlaen llaw
Ffoniwch 01286 678359
(opsiwn 2) i archebu lle.

ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 | hefsj@aol.com

# Ennill Tlws y Gynghrair



Ar ddiwrnod olaf y tymor daeth llwyddiant i fechgyn ifanc ail dîm pêl-droed Llanrug, a hynny yn dilyn tymor a welodd hwy'n gorffen yn drydydd yng Nghynghrair yr Ail Dimau; cynghrair oedd yn golygu mwy o deithio iddynt na'r tim cyntaf! Cafwyd rhediad arbennig o fis Ionawr eleni – heb golli'r un gem ac ennill pob rownd o'r gystadleuaeth am Dlws y Gynghrair. Yn eu hwynebu yn y ffeinal ar gae pêl-droed Gaerwen roedd ail dîm Llanelwy, a daeth torf dda o gefnogwyr Llanrug yno ar brynhawn braf i werthfawrogi eu hymdrechion. Ni fu rhaid iddynt ddisgwyl yn hir iawn, roedd Llanrug ar y blaen o fewn pedwar munud. Daeth Llanelwy yn gyfartal, ond enillwyd cic o'r smotyn gan Lanrug, a daeth diwedd yr hanner cyntaf gyda Llanrug ar y blaen o ddwy gôl i un. Hawliodd Llanrug yr ail hanner, a'u chwaraewyr ifanc a chyflym yn creu problemau di-ri i amddiffynwyr Llanelwy. Roedd dwy gôl arall (gan gynnwys ail gic o'r smotyn) yn ddigon i wneud y sgor terfynol yn 4-1 cyfforddus i Lanrug. Y sgowrwyr i Lanrug oedd Sam Griffith (2), Sion Evans ac Ywain Jones. Mae cryn edrych ymlaen am ddechrau'r tymor nesaf!

# NOSON WOBRWYO CLWB PÊL-DROED LLANRUG



Cynhaliwyd Noson Wobrwyo'r clwb yn nhafarn Penbont ganol fis Mehefin yn dilyn tymor llwyddiannus i'r ddau dîm, gyda'r tîm cyntaf yn gorffen yn bedwerydd yn eu cynghrair a'r ail dîm yn gorffen yn drydydd ac yn ennill Tlws y Gynghrair.

Rhanwyd y gwobrau fel a ganlyn:
**Prif sgoriwr y tîm cyntaf**: 1 Kevin Lloyd, a'r ail dîm 2 Sam Griffiths.
**Chwaraewr Ifanc**: 1 – Osian Williams, 2 – Berian Llwyd.
**Chwaraewr y Pwyllgor**: 1 – Shaun Roberts, 2 - Jake Calley-Thomas.
**Chwaraewr y Flwyddyn**: 1 – Tomi Llywelyn, 2 Robin Whiteside.
**Chwaraewr y Chwaraewyr**: 1 Osian Williams, 2 Owain Gibbard.
**Chwaraewr y Rheolwr**: 1 Dion Owen, 2 Owen Roden.

Gyda phwyllgor gweithgar, rheolwyr ymroddgar a charfan gref o chwaraewyr ifanc lleol, mae dyfodol y clwb mewn dwylo (a thraed!) da.

# Enillydd y Duathlon

Ganol fis Mehefin roedd cystadleuaeth Llanc y Llechen yn ôl yn Llanberis – a'r ffordd i Ben y Gwryd wedi ei chau am y bore. Mae'r brif gystadleuaeth yn cynnwys nofio yn Llyn Padarn, beicio o amgylch dyffrynoedd Eryri a rhedeg ym Mharc Padarn. Ond cyn y brif ras cynhaliwyd duathlon, sef rhedeg a beicio. Roedd yn cynnwys rhedeg 2k ym Mharc Padarn, beicio i Ben y Gwryd ac yn ôl cyn rhedeg 6k arall ym Mharc Padarn. A merch leol oedd yr enillydd. Roedd tua 50 o gystadleuwyr, a Rhian Thomas o Lanrug oedd enillydd adran y merched.





# Dal i redeg....

Unwaith eto bu'n fis hynod o brysur ar y ffyrdd, ar dir garw ac ar y mynyddoedd, gyda digonedd o lwyddiannau lleol. Ym mhen draw Llŷn roedd cystadleuaeth ryngwladol y Pen Llŷn Ultra. Roedd tri o'r fro yn rhan o dîm Cymru, sef Darren Owen, Llanrug a Hugh a Fiona Morgan, Bethel. Mae'r gystadleuaeth yn gofyn i bob rhedwr gwblhau cymaint a phosib o 'gylchoedd' o fewn pedair awr ar hugain; pob cylch tua phedair milltir a hanner. Stamina a dyfalbarhad oedd ei angen felly yn hytrach na chyflymder. Cwblhaodd Darren Owen 22 cylch, sef 100 milltir, gyda Hugh a Fiona yn cwblhau 13 cylch yr un, a chynorthwyo tîm Cymru i ennill y gystadleuaeth. Roedd Dafydd Eryl, Caeathro hefyd yn cystadlu fel unigolyn am y tro cyntaf, gan gwblhau 17 cylch, ac mae'n bur debyg y caiff yntau gynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth nesaf.

**AR Y MYNYDD**

Bydd cyfres rasys nos Fawrth wedi gorffen erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, ond mae syniad go dda pwy sy'n mynd i fod ymhlith enillwyr y gyfres. Cafwyd peth trafferthion yn Ras y Gogarth, Llandudno, gyda rhedwyr heb eu cofrestru yn ymuno â'r ras. Gallai hynny fod wedi achosi trafferthion pe bai'r tywydd yn ddrwg a rhedwr wedi brifo neu fynd ar goll. Daeth llwyddiant i Rhys ap Gwilym, Llanberis, yn ail dros 40 oed, ac Arwel Lewis, Bethel yn ail dros 60 oed. Yn yr adran i ferched dan 19 oed, Efa Baines, Clwt y Bont oedd yn fuddugol, a'i chwaer, Mabli yn ail.

Ymlaen yr wythnos ddilynol i gwrs heriol Moel y Gest, a'r angen i ddringo'r copa ddwywaith yn y ras. Roedd Rhys ap Gwilym a Dafydd Eryl ymhlith y deg uchaf i orffen. Yn y categori merched dan 19 oed, Efa Bianes oedd yn fuddugol unwaith eto, yn cael ei dilyn gan Anwen Hockley, Llanberis a Mabli Baines yn drydydd. Phil Jones, Waunfawr ddaeth yn gyntaf dros 70 oed a Maggie Oliver, Dinorwig y ferch gyntaf dros 75 oed.

Ni fu ras ar Fynydd Graig Goch, Nebo ers y ganrif ddiwethaf, a bryd hynny aeth bron i ddwsin o redwyr ar goll mewn niwl trwchus eithriadol. Ond roedd yr amgylchiadau fis diwethaf yn llawer mwy ffafriol, a chyrhaeddodd pawb yn ôl o'r mynydd yn ddiogel. Roedd Deri Hockley, Llanberis yn seithfed yn y ras ac yn gyntaf dan 17 oed. Ei chwaer, Anwen oedd yn fuddugol dan 19 oed, gydag Efa a Mabli Baines yn ail a thrydydd. Daeth Rhys ap Gwilym yn ail dros 40 oed a Phil Jones yn gyntaf dros 70 oed. Dwy o Lanberis, Ali Thomas ac Emily Wood, ddaeth yn ail a thrydydd dros 50 oed, gyda Maggie Oliver unwaith eto'n fuddugol dros 75 oed

Digon tebyg oedd canlyniadau Ras Tal y Mignedd, Nantlle. Rhys ap Gwilym yn ail dros 40 oed, Deri Hockley yn drydydd dan 17 oed a Phil Jones yn gyntaf dros 70 oed. Yn adran y merched Efa Baines, Anwen Hockley a Mabli Baines oedd y tair ferch gyntaf dan 19 oed. Daeth Ali Thomas ac Emily Wood unwaith eto'n ail a thrydydd dros 50 oed a Maggie Oliver yn fuddugol dros 75 oed.

Un ras fynydd leol a fu yn ystod y mis, sef Ras y Copaon 1,000 metr o Abergwyngregyn i gopa'r Wyddfa. Roedd ras fyrrach(!!!) hefyd o Nant y Benglog i gopa'r Wyddfa. Doedd y tywydd eithriadol o boeth o ddim cymorth i'r rhedwyr, ond daeth y teulu Hockley o Lanberis â'r wobr tîm cyntaf yn y ras fer, gyda Deri (dan 17 oed), Anwen (dan 19 oed) a'u tad, Neal yn cael yr amser gorau fel triawd.


Mae dwy ras leol i ddod: Moel Hebog o Feddgelert, ac yna uchafbwynt rasio mynydd, sef Ras Ryngwladol yr Wyddfa, a'r croeso arferol i'r cyfeillion o Morbegno, Yr Eidal. Pob dymuniad da i bob rhedwr lleol fydd yn herio'r mynydd.


**AR Y LÔN**

Pan sefydlwyd Ras 5k Llanrug rai blynyddoedd yn ôl, prin hanner cant o redwyr oedd yn cystadlu. Yna, fe'i dewiswyd yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Lôn Gogledd Cymru a chynyddodd y cystadleuwyr. Mae'n amlwg bellach fod y pellter yn un sydd o fewn cyrraedd gweddol gyfforddus y rhai sy'n cychwyn rhedeg am y tro cyntaf. Mae'r gwahanol gategoriau oedran hefyd, er yn gallu bod yn gur pen i'r trefnwyr, yn annog nifer i gyrraedd safon arbennig o fewn eu hystod oedran. Eleni eto, roedd y ras yn rhan o Bencampwriaeth Gogledd Cymru, a daeth rhedwyr yno o Gaergybi, o Ddinbych a thu hwnt. Roedd crysau amryliw y gwahanol glybiau rhedeg yn ychwanegu at y diddordeb i'r rhai oedd yn gwylio. Mae'n anodd credu fod 193 o redwyr wedi cwblhau'r cwrs. Braf hefyd oedd gweld criw da o athrawon Ysgol Brynrefail yn cystadlu, a nifer mwy o'r disgyblion yn awchu am gael eu rasio – a churo rhai ohonynt. (Roedd athrawon Ysgol Llanrug yn stiwardio!). Cyn y brif ras cynhaliwyd ras hwyl i blant oedran cynradd, ac yr oedd 140 yn cystadlu yn honno, a rhieni nifer o'r rhai lleiaf yn rhedeg gyda hwy.

Adam Jones o Lanberis ddaeth yn fuddugol; ei ail fuddugoliaeth o fewn y mis, oherwydd ef enillodd Ras 10k Abersoch hefyd. Fel y gellid disgwyl, aeth amryw o'r gwobrau yn y gwahanol oedrannau i bob cwr o Ogledd Cymru, ond daeth Arwel Lewis, Bethel yn ail dros 60 oed.





## Tyddyn Teg

**Bwyd - Tir - Pobl**

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**

**Dewch i'n siop!**

- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
✉ info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**



**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● AchlysuronArbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

# Cymru Dan 17 yn yr Ewros


Freddie Issaka yn y gêm rhwng  Cymru & Poland (Llun: John Smith/FAW)

Wedi dathliadau arbennig ym Mharc y Ddraig ddiwedd Mawrth, ar ôl ennill ei Grwp Elite, roedd Tîm Dan 17 Cymru ar eu ffordd i rowndiau terfynol Pencampwriaeth Ewros Dan 17 yn Hwngari.

Dim ond yr ail dro erioed i dim iau dynion Cymru i gyrraedd un o rowndiau terfynol UEFA, a'r tro cyntaf yn yr oedran hwn. Tîm o dan 18 yn 1981 oedd yr unig dro arall, gyda Mark Hughes yn rhan o'r garfan honno.

Roedd Cymru wedi eu gosod yn Grwp A gyda Hwngari, Gwlad Pwyl a Gweriniaeth Iwerddon.

Fe wynebodd y cochion y tîm cartref Hwngari yn Budapest yn eu gêm agoriadol. Cychwynodd y gêm â thempo uchel gan y ddau dîm. Fe gafodd Cymru sawl cyfle cynnar ond arbediadau hawdd i Yaakobishvilli yn y gôl i Hwngari. Hanner awr i mewn i'r gêm daeth rhyngipiad gan Josh Beecher cyn ei bas ymlaen i Iwan Morgan ar y chwith, ond taro'r postyn agosaf wnaeth ergyd ymosodwr Abertawe.

Wedi 43 munud ar y cloc dyma gôl gyntaf y gêm. Derbyniodd Benedek Simon y bêl ar ymyl y cwrt cosbi gan droi amddiffynnwr Cymru Clarke cyn ergydio, a'r bêl yn gwyro heibio'r golwr Margetson i mewn i'r rhwyd. Wrth i'r tîm cartref fynd ar y blaen roedd y 'Magyars' ifanc yn dathlu! Er fod Cymru ar ei hôl hi ar yr hanner, roeddent wedi creu nifer o gyfleon ac wedi creu problemau i amddiffyn y tîm cartref.

A'r ddechrau'r ail hanner roedd y gôl wedi deffro y tîm cartref wrth iddynt greu mwy o flaen y gôl. Ond yn ffodus i Gymru doedd yr ergydion ddim ar darged neu roedd Margetson yn eu harbed.

Gyda chwarter awr yn weddill daeth siom i Gymru. Rhediad gan Mólnar ar yr asgell ac ei ergyd yn cael ei arbed yn dda gan Margetson yn y gôl, ond fe laniodd y bêl yn syth i draed Szilarda Szabó ac fe lwyddodd yr eilydd i ddyblu mantais y tîm cartref. 5 munud yn ddiweddarach roedd hi'n dair. Cic gornel gan Mólnar a pheniad yn y postyn agosaf gan Adam Umathum yn canfod cefn y rhwyd. 3-0 i Hwngari.

Cafodd Cymru gyfleon gyda Freddie Issaka ac Alfie Cunningham ond methu â chanfod cefn y rhwyd fu eu hanes. Cymru yn colli eu gêm agoriadol felly a'u rhediad o 8 gêm heb golli drosodd!

Ymlaen at eu hail gêm dridiau yn ddiweddarach wrth iddynt wynebu Gweriniaeth Iwerddon yn y Pancho Arena. Roedd y ddau dîm angen buddgoliaeth wedi i'r Weriniaeth golli eu gêm agoriadol o 5-1 yn erbyn Gwlad Pwyl.

Cychwynodd Cymru ar ras ac wedi 30 eiliad yn unig daeth ergydiad o bellter gan Iwan Morgan a golwr Iwerddon Jason Healy yn cael blaen ei fys i'r bêl i wyro'r ergydiad i'r postyn pellaf. Arbediad gwych gan y golwr. Wedi 20 munud daeth rhediad gan Ike Orazi i'r cwrt cosbi a thacl amddiffynwr Abertawe Sam Parker yn dod ag asgellwr Iwerddon i lawr yn y cwrt am gic o'r smotyn.

Cafodd cic o'r smotyn gan Najemedine Razi ei harbed yn wych i'w dde gan Luke Armstrong yn y gôl i Gymru. Ond roedd y dyfarnwr wedi gweld fod golwr Caerdydd wedi dod oddi ar ei linell. Felly ail gyfle i Razi. Yn rhyfeddol Armstrong yn ei arbed hi am yr ail dro gyda chynnig lawr y canol y tro hwn. Ond y bêl yn disgyn yn syth i'r chwaraewr o Shamrock Rovers a Razi yn rhwydo ar yr ail gynnig i roi Iwerddon ar y blaen. Armstrong yn anlwcus iawn i Ildio.

Wedi 33 munud roedd Iwerddon wedi dyblu eu mantais. Croesiad o'r dde gan Luke Kehir a'r bêl yn darganfod Orazi a'r asgellwr yn crymanu ei ergyd i gornel uchaf y rhwyd. 2-0 i'r Werniaeth. Cymru felly ar ei hôl hi ar yr hanner.

Cychwyn digon distaw fu i'r ail hanner yn y gwres. Ond siom ar ôl awr, symudiad gwych gan Iwerddon o'r cefn. Chwaraewr Waterford Romeo Akachukwu gydag ergydiad o 25 llath allan ac am gôl wych oddi ar y postyn i'r gornel uchaf. Dim cyfle o gwbwl i Armstrong i arbed. Er i Gymru drio ymosod, roedd amddiffyn Iwerddon yn gadarn a'r dreigiau yn methu eu torri lawr. Colli o 3-0 unwaith eto oedd hanes Cymru. Gweriniaeth Iwerddon o bosib yn dangos cryfder a safon yn y gêm ar lawr gwlad gyda deunaw o'u garfan yn chwarae gyda chlybiau yn Iwerddon.

Wedi i Wlad Pwyl guro Hwngari 5-2, doedd Cymru felly ddim yn gallu mynd allan o'r grŵp cyn eu gêm olaf. Roedd y gwrthwynebwyr Gwlad Pwyl wedi sicrhau eu lle yn yr wyth olaf yn barod.

Wedi chwarter awr o chware, fe ddaeth ymosodiad gwych gan Wlad Pwyl a'r bêl yn disgyn i lwybr Filip Wolski gydag ergydiad yr asgellwr yn taro'r trawst. Daeth y trawst i achub Cymru eto cyn diwedd yr hanner. Cic rydd o bell gan chwaraewr Parma, Daniel Mikołajewski, yn curo Armstrong yn y gôl ond am yr ail dro taro'r trawst oedd hanes y Pwyliaid.

Roedd hi'n ddi-sgôr hanner amser diolch i berfformiad da gan Gymru a diolch bach i'r trawst! Ar ddechru'r ail hanner daeth cyfle i Gymru daro'r trawst wrth i groesiad Josh Beecher o'r chwith daro'r pren. Er cyfleuon i'r ddau dîm, doedd neb yn gallu canfod y rhwyd.

Wedi 82 munud roedd gôl. Daeth croesiad o'r asgell dde gan Freddie Issaka a Gabriele Biancheri yn ei phenio i mewn i gornel isaf y rhwyd. Gôl gyntaf Cymru yn rowndiau terfynol Ewros Dan 17 a Chymru felly ar y blaen. Fe ddeffrodd Gwlad Pwyl gyda 2 gyfle sydyn, un dros y trawst ac Armstrong yn arbed y llall.

Munud cyn y diwedd daeth pas llac yn ganol y cae gan Gwlad Pwyl a Chymru yn manteisio ac yn gwrth ymosod yn sydyn. Iwan Morgan gyda rhediad rhwng amddiffynwyr i mewn i'r cwrt cosbi ac yn ergydio gyda'i droed chwith i gornel isaf y rhwyd i ddyblu mantais Cymru.

Yn syth o'r ail chware pas wych gan y capten Charlie Crew gyda thu allan ei droed i Iwan Morgan ar ymyl y cwrt. Fe dorodd tu mewn o'r chwith ac yna crymanu'r bêl i gornel y rhwyd. Ail gôl mewn 2 funud i ymosodwr Abertawe. Buddugoliaeth o 3-0 i Gymru yn erbyn tîm cryf Gwlad Pwyl. Wrth i dîm Craig Knight orffen y twrnament ar nodyn uchel.

Fe aeth Gwlad Pwyl ymlaen cyn colli yn y rownd gyn derfynol yn erbyn Yr Almaen. Yr Almaen gipiodd y tlws yn y rownd derfynol gan ennill ar giciau o'r smotyn yn erbyn Ffrainc wedi gêm di sgor.

Am gamp a phob clod i'r tîm Dan 17 ar gyrraedd y rowndiau terfynol yn Hwngari. Gan obeithio welwn ni fwy o dimau iau cenedlaethol yn cyrraedd rowndiau terfynol UEFA yn y blynyddoedd i ddod.

Yn sicr mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair a phwy â wyr efallai welwn ni ambell un o'r garfan yn camu ymlaen i dîm cyntaf yn y dyfodol!

**Elgan Rhys Jones**

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >